

**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**9.30yb – 10 Rhagfyr 2020  
Ar-lein ar Microsoft Teams**

### AGENDA

#### Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe	Dianne Walker Claire Hodson
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheoli Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Busnes	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Sian Beck – Gwasanaethau Corfforaethol James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd Greg George, Pennaeth Datblygu Amrywiaeth (Eitem 137 yn unig) Kerry Ambrose, Pennaeth Newid a Chydweithredu (Eitem 137 un unig)
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
POBL ERAILL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA Mike Whitley, Archwilio Cymru	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
126	Ymddiheuriadau	Cadeirydd			
127	<b>Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf</b> Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020.	Cadeirydd		3-12	5 mun
128	<b>Cofnod Gweithrediadau</b>	Cadeirydd		13-33	15 mun
	<b>Eitemau Sefydlog</b>				

129	<b>Diweddariad Sefydliadol</b>	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth	34-38	10 mun
130	<b>Diweddariad AHEM</b>	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Gwybodaeth	39-40	5 mun
131	<b>Archwilio Mewnol</b> a. Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr (yn cynnwys crynodeb o Adolygiad Dilynol) b. Archwilio Mewnol SICA 2020-21	a – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb  b – Rheolwr Archwilio TIAA	Sicrwydd	41-50  51-62	10 mun
132	<b>Diweddariad Risgiau</b> - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd	63-72	10 mun
	<b>Eitemau Sefydlog</b>				
133	<b>Rheoli'r Trysorlys – Blwyddyn Ariannol 20-21 – Diweddariad 6 mis</b>	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd	73-83	15 mun
134	<b>Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)</b>	Archwilio Cymru		84-89	10 mun
135	<b>Cais am gefnogaeth gyda dadansoddeg data</b>	Archwilio Cymru		90-94	5 mun
136	<b>Adroddiad Cyfreithiol</b>	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth	95-108	10 mun
137	<b>Moeseq</b>	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol		109-115	10 mun
138	<b>Diweddariad Llywodraethu</b> • Bwrdd Cyd Lywodraethu • Adolygiad Llywodraethu • Bwrdd Sicrwydd	Prif Swyddog Cyllid / Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd	116-120	10 mun
139	<b>Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21</b>	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad	121-125	10 mun
140	<b>Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)</b>				
	<b>DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL</b> 30 Mawrth 2021 AMODOL 29 Gorffennaf 2021 AMODOL 6 Hydref 2021 AMODOL 8 Rhagfyr 2021				
		CYFANSWM			<b>2 awr</b>

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

5 HYDREF 2020

### PRESENNOL

#### CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd  
John Cunliffe  
Dianne Walker  
Claire Hodson

#### SWYDDOGION YR HEDDLU:

Carl Foulkes – Prif Gwnstabl  
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau  
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid  
Helen Williams – Cyfrifydd Rheoli Ariannol  
Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Busnes  
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd  
Neil Ackers – Swyddog Parhad Risg a Busnes

#### SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Arfon Jones – Comisiynydd Heddlu a Throsedd  
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol  
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid  
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

#### POBL ERAILL YN BRESENNOL

Helen Cargill, TIAA  
Mike Whitley, Archwilio Cymru  
Michelle Phoenix, Archwilio Cymru  
Jodie Williams, Archwilio Cymru

### YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Prif Uwcharolygydd Dros Dro Simon Williams –  
Gwasanaethau Corfforaethol

### 113. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir o'r cyfarfod pan ddiwygiwyd y ddau bwynt canlynol:

- Diwygiwyd Prif Gwnstabl Dros Dro Nigel Harrison i Brif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Nigel Harrison.
- Amlygwyd y gweithrediad o fewn eitem agenda 111.

#### 114. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: (91b, 94c, 103a, 103c, 105b, 105c, 107a, 108a, 108b, 108c, 108d, 108e, 109).

#### 115. DIWEDDARIAD SEFYDLIAD

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.

##### Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ers yr ysgrifennwyd yr adroddiad, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd unwaith eto wedi llwyddo sicrhau gwobr gan CoPaCC am ddiwylliedd a thryloywder y wybodaeth a roddir ar eu gwefan. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y mae'r wobwr hon wedi'i derbyn.

Mae'r Comisiwn wedi ysgrifennu at holl Awdurdodau Lleol o fewn Gogledd Cymru o ran Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru gan fod rhai gweithrediadau'n gyfrifoldeb iddyn nhw. Nid yw hwn yn faes gwaith y gall Heddlu Gogledd Cymru ei ymdrin ar ei ben ei hun. Rydym yn disgwyl atebion ganddynt ar y cynnydd sydd wedi'i wneud.

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio eu llongyfarchiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am sicrhau'r wobwr CoPaCC unwaith yn rhagor.

Holodd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio a fyddai manylion cyllid Safer Streets a sicrhawyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnwys y flwyddyn nesaf yn y tabl sy'n ymddangos ar dudalen 43 o'r cyfrifon. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid y byddent yn cael eu cynnwys o fewn y cyfrifon.

Holodd y Cydbwyllgor Archwilio a allai'r cyllid ychwanegol a dderbynnir gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod yn destun eitem agenda at wraidd y mater er mwyn galluogi'r Cydbwyllgor i ddeall y broses gysylltiedig yn well.

Dywedodd swyddogion o fewn SCHTh y byddai hwn yn bwnc amserol. Argymhellodd y dylai'r cyllid Safer Streets gael ei gyflwyno fel eitem At Wraidd y Mater ar gyfer cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr.

GWEITHREDIAD 115	Y Prif Swyddog Cyllid i gynnig y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel eitem agenda At Wraidd y Mater ym mis Rhagfyr.
---------------------	---

### Heddlu Gogledd Cymru

Gwnaeth y Prif Gwnstabl ddiweddarau'r Cydbwyllgor ar y tri phrif faes sy'n peri pryder ar hyn o bryd.

**Ansicrwydd** – Y sefyllfa fwyaf ansicr mae'r heddlu wedi'i hwynebu ers blynyddoedd o ran Covid a chyllid. Mae trosedd wedi dychwelyd at lefelau cyn Covid gyda'r angen ychwanegol i blismona Covid. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth ac mae angen cynnal cymorth i'r cyhoedd.

Mae symudiad mawr wedi bod at weithio o'r cartref/gweithio'n hyblyg gyda sawl aelod o staff yn gweithio o'r cartref. Mae hyn yn rhoi cyfle i Heddlu Gogledd Cymru newid eu model cyflawni wrth fynd ymlaen.

**Herio** – Mae galw yn her sylweddol gyda llawer mwy o droseddau yn cael eu cyflawni ar-lein. Mae angen newid y sefydliad i adlewyrchu'r newid hwn. Mae llawer mwy o wrthdystiadau ar raddfa fawr wedi'u gweld ledled y wlad sydd angen presenoldeb sylweddol gan yr heddlu.

**Gallu Gweithredol** – Mae llawer o Swyddogion Gwirfoddol a roddodd gymorth amhrisiadwy yn ystod lledaeniad cychwynnol y Covid wedi dychwelyd i'r gwaith/coleg ac nid ydynt ar gael cymaint i gynorthwyo fel yr oeddent. Tra bod yr Heddlu'n cynorthwyo'r ymdrech i ymdrin â'r pandemig drwy blismona, mae angen egluro rôl yr heddlu o'i gymharu ag asiantaethau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl am y diweddariadau.

## 116. **DATGANIAD CYFRIFON BLWYDDYN ARIANNOL 19-20 / ISA260**

### Barn Archwilio Cymru

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad a ddarparwyd gan Archwilio Cymru sy'n amlygu prif ganfyddiadau'r archwiliad a'r prosesau a ddilynwyd.

Adroddodd Archwilio Cymru fod y ddogfen hon yn amlinellu'r hyn sydd angen cael ei adrodd amdano a gwnaethant ddiolch i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled a'u cydweithrediad yn y cyfnod anodd hwn.

Mae'r archwiliad wedi'i gwblhau gyda dau fater arwyddocaol wedi'u nodi sydd ddim yn effeithio barn ddiamod y cyfrifon.

Y materion arwyddocaol a nodwyd oedd trin prydles gorsaf heddlu Tref Wrecsam fel prydles weithredol ac nid prydles gyllid. Adolygir hyn gan y Tîm Cyllid yn ystod 2020-21. Yr ail fater arwyddocaol yw'r dadansoddiad aeddfedrwydd offerynnau ariannol sydd wedi'i ddanddatgan £120,000.

Cwblhawyd drafftiau cyntaf y cyfrifon erbyn 1 Mehefin 2020 a chwblhaodd Archwilio Cymru eu gwaith o fewn y graddfeydd amser newydd. Mae disgwyl i Archwilio Cymru lofnodi'r cyfrifon ar 7 Hydref 2020 gyda llofnodion electronig. Cyn gynted ag y derbynnir llythyrau sylwadau, mae disgwyl i Archwilio Cymru roi barn archwilio diamod ar y ddau gyfrif.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am y gwahaniaeth yn y prydles. Dywedodd Archwilio Cymru na ddangosir dyled ac asedau prydles weithredol ar y fantolen tra dangosir prydles gyllid ynghyd â'r ddyled a'r asedau.

#### Ymateb Rheolwyr ar Eithriad

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad a gyflwynwyd a amlygodd y gweithrediadau a'r penderfyniadau a gymerwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth gynhyrchu'r Datganiad o Gyfrifon 2019-20.

Dywedwyd fod y dyddiadau cau estynedig a'r ffyrdd newydd o weithio oherwydd y pandemig wedi effeithio ar y ffordd y cynhyrchwyd y cyfrifon gyda llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni ar-lein.

Adroddwyd fod y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi parhau'n ddigyfnewid ar y cyfan o'r cyfrifon drafft a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mai.

Nodwyd fod adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio wedi'i fynegi wrth gynhyrchu'r cyfrifon, gan fod yn berthnasol i'r adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn benodol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau mai'r nod yw ymateb yn fwy i'r sylwadau yn y dyfodol. Nodwyd fod y daith wedi dechrau ac y trosglwyddir ac yr ychwanegir hyn.

Nododd y Prif Swyddog Cyllid, ar ôl mynd i gyfarfod yr wythnos ddiwethaf, y nodwyd fod materion tir/ystâd yn fwy perthnasol i'r sector preifat na'r sector cyhoeddus. Awgrymir diwygiadau i'r safonau archwilio i'r sector cyhoeddus adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Dywedodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio y dylai dyddiad cynllun cyflawni'r Heddlu fynegi'r flwyddyn berthnasol a bod £19k wedi ymddangos yn y golofn cydnabyddiaeth ar gyfer y Prif Gwnstabl ond gyda dim eglurhad ar Dudalen 26 o gyfrifon y Prif Gwnstabl. Awgrymwyd y dylid ychwanegu nodiadau wrth fynd ymlaen i egluro'r gwariant yn llawn, er eglurodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai'r manylyn hwn yn cael ei ddadlennu ar wahân ar wefan SCHTh faes o law.

#### Argymhellion y CA ar Gymeradwyo'r Cyfrifon

Nodwyd fod y cyfrifon wedi dod at ei gilydd gyda'r newidiadau a awgrymwyd gan y Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hymgorffori ond bod hyn wedi digwydd yn y mis diwethaf. Mae gwaith pellach yn y dyfodol eto i'w wneud. Dywedodd Dianne Walker ei bod yn obeithiol y bydd y datganiadau ariannol yn gyfres o gyfrifon llai a deniadol erbyn mis Mehefin 2021. Bydd hyn o gymorth i amlygu'r gwaith da sy'n cael ei wneud o fewn y ddau sefydliad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl bartïon am eu gwaith caled ac am ymrwymiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r tîm i gyflawni argymhellion y Cydbwyllgor Archwilio.

Derbyniwyd Adroddiadau Swyddogion Cyllid y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Cynhaliwyd trafodaeth yn ymwneud â datrysiad o ran datganiadau o gyfrifon blynyddol a datganiadau llywodraeth blynyddol Datganiad o Gyfrifon 2019-20. Yn dilyn y drafodaeth hon penderfynodd y Cydbwyllgor Archwilio'r canlynol:

- Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi adolygu Datganiadau Ariannol Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac wedi ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol o hynny ymlaen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cadarnhau nad oes materion heb eu penderfynu yn codi sydd angen eu hadrodd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, cyn i'r Datganiadau Ariannol Blynyddol gael eu cymeradwyo.

NODER: Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl a'r holl bartïon eraill lofnodi'r cyfrifon yn electronig tu allan i'r cyfarfod hwn.

#### 117. **DIWEDDARIADAU'R HMICFRS**

##### AHEM

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad ar HMICFRS a'r Cynllun Strategol.

Nodwyd fod y Prif Arolygydd David Cust wedi disodli'r Prif Arolygydd Andy Griffiths o fewn yr adran.

Mae cynnydd yn erbyn AFIs wedi'i gwblhau ac mae pawb yn gyfforddus y bydd llawer o weithrediadau'n cael eu cau pan yr adolygir nesaf gyda HMICFRS.

Wedi ymgynghori gyda HMICFRS yr wythnos ddiwethaf mae'r arolygon canlynol wedi'u nodi. Ond mae trafodaethau'n awr yn digwydd gan ei bod yn ansicr a fydd Arolygwyr yn dod i'r safle ar gyfer yr arolwg Trais Rhywiol oherwydd y cyfyngiadau symud lleol sydd yn awr mewn grym.

Disgwylir i'r arolygon canlynol ddigwydd yn fuan:

PEEL

Trais Rhywiol

Ymateb i Covid

Trefn Gyhoeddus – bydd yn canolbwyntio ar ddinasoedd mawr

Mae trafodaeth yn parhau gyda HMICFRS wrth iddynt ailddechrau eu harolygon a chamau a fydd eu hangen eu cymryd yn yr Heddlu.

#### 118. **ARCHWILIO MEWNOL**

a. TROSOLWGW ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur a gyflwynwyd ar weithrediadau rheolaeth mewnol Heddlu Gogledd Cymru.

Nodwyd bod 8 argymhelliad neilltuol ar ôl ond bod pump wedi'u clymu i'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol (NEP).

Mae dau Nodyn Briffio Cleientiaid yn parhau ar agor ond mae gwaith wedi'i gwblhau ar y rhain. Mae un ynghylch yr ICO a'r asesiad ar-lein o ran ein cydymffurfiaeth gyda Rhyddid Gwybodaeth. Mae asesiad ar-lein wedi'i gwblhau ac fe fydd yn cael ei rannu gydag aelod arweiniol TGCh y Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r ail yn berthnasol i'r adroddiad NAO o ran Covid-19 a oedd yn ar agenda'r CA.

GWEITHREDIAD 118a	Swyddog Cyllid a Chyllidebau i asesiad ar-lein ICO gydag aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (John Cunliffe).
----------------------	---

Mae dau archwiliad wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiadau olaf wedi'u rhannu gydag Archwilio Mewnol gyda rhai eraill ar y gweill neu wedi'u cynllunio.

Yn dilyn trafodaethau gydag Archwilio Mewnol, mae swyddogion yn hyderus y cwblheir cynllun archwilio llawn 2020/21.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a oedd Cadeirydd newydd y Pwyllgor Moeseg yn ymwybodol ac yn rhan o'r trafodaethau o ran y Canllawiau Chwythu Chwiban NIAO CBN. Gan nad oes Cadeirydd eto, byddai'r CBN yn cael ei rannu gyda nhw ar y cyfle cyntaf.

GWEITHREDIAD 118b	Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu CBN Canllawiau Chwythu Chwiban NIAO gyda Chadeirydd newydd y Pwyllgor Moeseg.
----------------------	--

Nododd Aelod o'r Cydbwyllgor na ymddangosodd dyddiadau yn y golofn Dyddiad Dyledus Diwygiedig o dan Atodiad 1 ar gyfer argymhellion archwilio mewnol neilltuol. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i fynd ag edrych ar egluro dyddiadau a diweddaru'r tabl gyda dyddiadau diwygiedig.

GWEITHREDIAD 118c	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddaru'r tabl o dan Atodiad 1 gyda Dyddiadau Dyledus Diwygiedig ar gyfer argymhellion archwiliad mewnol neilltuol.
----------------------	---

b. ARCHWILIO MEWNOL SICA 2020-21

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol 2020-21.

Nodwyd bod dau archwiliad mewnol wedi cael eu cwblhau, bod adroddiadau wedi'u rhannu gyda swyddogion ac y cytunwyd amserlen ddiwygiedig ar gyfer yr archwiliadau sy'n weddill.



Ni fydd yr archwiliad rheoli cytundebau yn digwydd bellach y flwyddyn hon. Mae trafodaeth yn parhau gyda rheolwyr o ran dyrannu'r dyddiau ychwanegol na ddefnyddiwyd y mae hyn wedi'i greu.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am yr argymhellion diogelwch seiber ac a ydynt angen edrych ymhellach iddynt. Mae pryder ynghylch y graddau amser er mwyn gweithredu rhai o'r datrysiadau ac a ydynt yn ddigon cyflym i ganiatáu datrysiadau digonol gael eu rhoi mewn lle.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid y gall hwn fod yn destun eitem at wraidd y mater ar yr agenda gan y gall roi'r sicrwydd angenrheidiol ar y mater hwn. Wedi trafod, cytunwyd y byddai'r CCA yn cymryd y cwestiwn ynghylch lliniaru presennol ac amserlenni ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio. Ond fe wnaethant dawelu meddwl Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio fod mesurau presennol mewn lle.

GWEITHREDIAD 118d	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddaru'r Cydbwyllgor Archwilio ar fesurau sydd mewn lle i liniaru yn erbyn bygythiadau diogelwch seiber ac a oes unrhyw bosibilrwydd am gwtogi amserlenni wrth weithredu.
----------------------	--

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio fod nifer o adroddiadau at wraidd y mater wedi'u crybwyll ac mae'r gweithrediad wedi'i adael i Swyddogion i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio pan mae'n briodol.

GWEITHREDIAD 118e	Prif Swyddog Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid i gyflwyno Adroddiadau at Wraidd y Mater amlwg i'r Cydbwyllgor Archwilio fel y mae'n briodol – diweddaru'r Rhaglen Waith i adlewyrchu.
----------------------	---

#### 119. **DIWEDDARIAD RISG**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddir o fewn y papur Diweddariad Risg ar 6 Medi 2020.

Dywedodd aelodau o'r Cydbwyllgor eu bod fel arfer yn gweld y gofrestr risg lawn ond nid ydynt wedi derbyn y fersiwn ddiweddaraf cyn y cyfarfod. Nodwyd ei bod yn anodd cael sicrwydd fod pethau fel ag y dywedir heb y ddogfen hon.

GWEITHREDIAD 119a	Swyddog Risg a Pharhad Busnes i roi'r copi diweddaraf o'r Gofrestr Risg lawn i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn pob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio.
----------------------	--

Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn codi eu pryderon yng Nghydbwyllgor Archwilio Cymru ynghylch faint o waith sydd angen ei ymgymryd wrth baratoi ar gyfer arolygon AHM. Byddai aelodau'n fodlon rhoi adborth.

Arweinydd Risg y CA, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a Swyddog Risg a Pharhad Busnes i gysylltu a diweddarau'r ddogfen er mwyn sicrhau y derbynnir mwy o sicrwydd o'r ddogfen yn y dyfodol.

GWEITHREDIAD 119b	Arweinydd Risg y CA, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a Swyddog Risg a Pharhad Busnes i gysylltu er mwyn sicrhau y derbynnir mwy o sicrwydd gan y ddogfen yn y dyfodol.
----------------------	---

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor fod anghysondeb gyda'r ffigyrau a geir yn Nhabl 1 a bod gwall gyda'r geiriad yn Nhabl 2. Nodwyd hefyd na roddwyd eglurhad o ran Tabl 3 gan y nodwyd llawer o risgiau ond ni roddwyd eglurhad.

GWEITHREDIAD 119c	Swyddog Parhad Risg a Busnes i ddiweddarau tablau 1 a 2 a rhoi eglurhad pellach o ran Tabl 3 erbyn y cyfarfod nesaf.
----------------------	--

Gadawodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y cyfarfod.

## 120. **DIWEDDARIAD GWERTH AM ARIAN**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid ddiweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio am y Fframwaith Gwerth am Arian a'r prosesau a ddilynwyd gan staff er mwyn sicrhau y cyflawnir gwerth am arian ledled y sefydliad cyfan.

Diolchodd aelodau'r Cydbwyllgor i staff am eu mewnbwn ac fe wnaethant nodi'r wybodaeth ddefnyddiol a gafwyd o fewn y cyflwyniad. Awgrymwyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol derbyn y cyflwyniad hwn ar ddechrau cyfnod pwyllgor.

Nododd aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cynnwys gwerth am arian yn y papurau a dderbynnir gan fod hyn yn ffurfio rhan o Gylch Gorchwyl y Cydbwyllgor. Hoffai aelodau adlewyrchu ymhellach ar werth am arian mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio sut y gellid adlewyrchu gwerth am arian yn well mewn papurau yn y dyfodol ac os gellid ei ddadansoddi i sut y gwneir arbedion. Gellid rhoi mwy o sicrwydd at y dyfodol gan Archwilio Mewnol a chynnwys hyn yn eu rhaglen waith ar gyfer 2011-22.

GWEITHREDIAD 120	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio sut y gellid adlewyrchu gwerth am arian yn well mewn papurau i'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol ac ystyried ei ymgorffori i raglen waith Archwilio Mewnol 2021-22.
---------------------	--

## 121. **YMATEB Y SWYDDFA ARCHWILIO GENEDLAETHOL**

Nododd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'r sicrwydd a roddwyd yn y papur bod cwestiynau Craffu NAO Adrodd a'r Rheoli Ariannol yn ystod Covid wedi'u harchwilio yn llawn a bod camau pellach wedi'u nodi mewn rhai achosion. Nodwyd ei bod wedi bod yn ymarfer defnyddiol gan fod meysydd wedi'u hystyried yn ofalus ym mhob adran o'r adroddiad.

Diolchodd aelodau'r Cydbwyllgor i swyddogion am y sicrwydd a roddwyd yn y papur.

## 122. BWRDD SICRWYDD

Nododd Aelodau o'r Cydbwyllgor y diweddariad a roddwyd o fewn yr adroddiad ar waith y Bwrdd Sicrwydd sy'n amlygu'r busnes a ymdrinnir gan y bwrdd yn ei gyfarfodydd rheolaidd.

Yng nghyfarfod mis Medi, nodwyd 3 cham a gwnaed 7 penderfyniad. Caewyd 13 gweithrediad sy'n adlewyrchu'r gwaith/gweithredu sy'n cael ei ymgymryd o fewn y sefydliad.

## 123. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

### Bwrdd Cyd Lywodraethu

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio bod y Bwrdd Llywodraethu newydd yn symud ymlaen yn dda a bod y cyfarfodydd yn fwy cynhyrchiol.

Nododd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ei bod yn llawer hapusach gyda'r ffordd y cynhaliwyd y cyfarfodydd ond ei bod yn bryderus nad yw'r adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith da sy'n cael ei ymgymryd. Awgrymodd y gellid mynd at Dîm Cyfathrebiadau Corfforaethol i baratoi negeseuon o fewn cynnwys y naratif i'r Datganiad o Gyfrifon a phrawf ddarllen y ddogfen a baratowyd.

Nododd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd bod y Cyfarwyddwr Cyllid wedi ymgymryd â pheth gwaith a allai fod wedi'i ddirprwyo i staff/swyddogion o fewn y sefydliad.

Nodwyd y dylai adlewyrchu pa Strwythurau Llywodraethu sydd eisoes mewn lle yn y cyfarfod nesaf a pha gamau sydd eu hangen.

GWEITHREDIAD 123a	Prif Swyddog Cyllid i osod eitem ar agenda'r Bwrdd Llywodraethu nesaf yn adlewyrchu pa Strwythurau Llywodraethu sydd eisoes mewn lle o fewn y Heddlu.
----------------------	---

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a fyddai'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn dweud eu bod yn fodlon gydag ateb Rheolwyr i'r CBNs. Nodwyd nad oedd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn credu mai fel hyn oedd hi ac roeddent eisiau nodi'r mater hwn.

Nododd y Prif Swyddog Cyllid y credodd fod y Bwrdd yn fodlon gydag ymateb Rheolwyr i'r CBNs. Ond fe ddywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y dylai'r geiriad gael ei nodweddu ag arlliw o fynegiant a'i adlewyrchu'n briodol yng nghofnodion y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

GWEITHREDIAD 123b	Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i sicrhau fod cofnodion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn adlewyrchu geiriad priodol o ran y CBNs a gyflwynwyd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu a gynhaliwyd fwyaf diweddar.
----------------------	--

### Adolygiad Llywodraethu

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad ar gynnydd mewn gweithredu'r argymhellion sy'n codi o'r Adolygiad Llywodraethu.

Nododd fod y cynllun dirprwy bron a'i gwblhau a'r cam nesaf fyddai cael cymeradwyaeth y Prif Swyddogion cyn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Prif Gwnstabl.

Penderfynwyd y dylai'r Cydbwyllgor Archwilio dderbyn adroddiad sicrwydd lefel uchaf blynyddol i fonitro cynnydd ar yr Adolygiad Llywodraethu er mwyn sicrhau fod cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn erbyn yr argymhellion a amlygir o'i mewn.

GWEITHREDIAD 123c	Prif Swyddog Cyllid i ymgorffori Adroddiad Cynnydd Adolygiad Llywodraethu i raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio.
----------------------	---

#### 124. **RHAGLEN WAITH AR GYFER 2020/21**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio fod y Rhaglen Waith wedi'i diweddarau i adlewyrchu newidiadau a gytunwyd yn y ddau gyfarfod diwethaf (Gwerthusiad y CA ac Adroddiad Blynyddol y CA i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth 2021).

Gofynnwyd i raglen waith ychwanegol gael ei chreu ar gyfer sesiwn gaeedig y Cydbwyllgor Archwilio a ddylai gynnwys yr Adroddiad Cyfreithiol ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr a bob chwe mis wedi hynny.

GWEITHREDIAD 124	Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith i adlewyrchu newidiadau o'r ddau gyfarfod diwethaf a chreu rhaglen waith ar gyfer Sesiwn Gaeedig y Cydbwyllgor Archwilio.
---------------------	---

#### 125. **UNRHYW FATER ARALL**

Cyrchu TGCh – mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gofyn i'r Cydbwyllgor Archwilio graffu'r ddogfen Cyrchu TGCh pan mae wedi'i chwblhau.

Nododd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio ei bod yn fodlon i'r eitem hon gael ei chynnwys o fewn y rhaglen waith.

GWEITHREDIAD 125a	Prif Swyddog Cyllid i gynnwys eitem Cyrchu TGCh o fewn y rhaglen waith.
----------------------	---

Gofynnodd arweinydd y Cydbwyllgor Archwilio os cai gymryd rhan yn y cyfnod cynnar. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i wahodd holl aelodau i gyfarfod cynnar i drafod Adolygiad Llywodraethu.

GWEITHREDIAD 125b	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drefnu cyfarfod gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod y cytundeb Cyrchu TGCh.
----------------------	---

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 10 Rhagfyr 2020 am 9.30yb naill ai'n Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn neu drwy Microsoft Teams.

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO  
COFNOD GWEITHREDIADAU o 30.07.2020

	Ar agor
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2020

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	56a	<b>Moeseq</b> – Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i godi'r ddilema a dderbyniwyd ynghylch rhai sy'n cael eu hymosod arnynt yn rhywiol gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr.	Wedi gohirio	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Y Prif Swyddog Cyllid wedi cydlynu gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth sy'n datgan bod hyn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei ystyried yn ddiweddar gan yr ICO, GEG a'r llysoedd ac yn argymhell na ddylai CHTh-fod yn rhan o'r mater ar y foment. 09/03/2020 – fel mater cenedlaethol, gall cynnwys y CHTh atal cynnydd. Gohirio hyd nes y bydd y darlun cenedlaethol yn gliriach. 02/06/20 – Wedi gohirio. Yn disgwyl cynnydd cenedlaethol. 19/10/2020 – Cadarnhau na dderbyniwyd diweddariad pellach.	
	56b	<b>Moeseq</b> – Prif Swyddog Gwybodaeth i greu diagram llif syml o'r broses dilema foesebol a sut y'i gosodir o fewn Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru.	Ar unwaith	Swyddog Llywodraethu a Sicrwydd	<b>28/11/2019</b> Swyddog Llywodraethu a Pholisi i ymgymryd â hyn. 04/03/2020 Gwnaiff Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol greu diagram llif syml o ran Dilemâu Moesebol a rhannu hyn yng nghyfarfod nesaf y CA. (Gall y diagram hwn newid unwaith y penodir y Cadeirydd Annibynnol newydd – gweler gweithrediad	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>56c).</p> <p>09/09/2020 – copi drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio ac yna'i gyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg i'w gwblhau ac yna'i ail-rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>02/06/20 – Rhannwyd Siart Llif y Broses Dilemâu Moesegol gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>30/07/2020 – Siart llif yn or-sympl iawn ac nid yw'n esbonio'n llawn sut mae'r broses yn gweithio. Hysbysodd Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pwyllgor Moeseg, sydd gyda Chadeirydd ac aelodaeth newydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach ar ôl penodi Cadeirydd newydd</p> <p>23/09/2020 – Mae'r siart llif syml wedi'i rannu ac mae'n cynrychioli ein llif presennol o ran sut mae cyfyng-gyngor moesegol yn cyrraedd y Pwyllgor Moeseg a sut y cânt eu datrys a'u bwydo'n ôl i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i lywio ymarfer/prosesau. Caiff y llif ei adolygu pan fydd y Cadeirydd Annibynnol yn dechrau ar ei gwaith. Gwnaed cynnydd gyda'r Cadeirydd Annibynnol yn pasio'r wythnos Fetio yn dechrau 21/09/20. Cais am gamau i'w cymryd i ganiatáu i'r Cadeirydd Annibynnol ddechrau ac adolygu prosesau. Cadeirydd Dros Dro Uwcharolygydd Simon Williams.</p>	
	59h	<b>Archwilio mewnol</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar ymweliad yr ICO i Heddlu Gogledd Cymru i adolygu eu cynllun gweithredu o ran RhDDC.	Pan mae ymweliad yr ICO wedi dod i ben	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>Cynhaliwyd adolygiad er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r RhDDC ac mae'r gweithrediadau wedi cwblhau.</p> <p><b>28/11/2019</b></p> <p>Ail-agor. Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau edrych ar yr adroddiad ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>04/03/2020</p> <p>Mae CCA wedi cyfarfod gyda Phennaeth Diogelwch Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth i drafod cynnydd o</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>ran argymhellion archwiliad TIAA sy'n tarddu gan archwiliad RhDDC. Mae'r gweithrediadau wedi'u holrhain drwy eitem sefydlog Archwilio Mewnol hyd yma (mae angen i eiriad y gweithrediad gael ei ddiwygio gan mai ym mis Ionawr 2013 oedd adolygiad ymweliad diwethaf yr ICO).</p> <p>Mae dau weithrediad yn dal ar agor o ran Archwiliad Cydymffurfriad Archwiliad RhDDC Rhif PO FN27625. Rhoddir y sefyllfa ddiweddaraf isod:</p> <p>237156 Bydd rhyddhau'r gweithrediad yn ddibynnol ar gyflawni'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol (sydd ar hyn o bryd yn Brosiect o fewn Rhaglen Waith Trawsnewidiad Digidol) gyda gosod llawn i ddechrau wedi cwblhau Cynllun Arbrofol Defnyddwyr Busnes a disgwyl i gymryd 12 mis arall.</p> <p>237154 Mae Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth wedi symud ymlaen gyda'r gwaith angenrheidiol gan greu Polisi Diogelu Data. Mae rhyddhau'r gweithrediad yn ddibynnol ar y swyddog Polisi yn cadarnhau'r ddogfen a grëir.</p> <p>Y cynnig yw cau'r gweithrediad hwn ar y cofnod gweithrediadau ac olrhain cynnydd drwy eitem agenda sefydlog Archwilio Mewnol.</p> <p>09/03/2020</p> <p>CCA i ystyried a ddylai'r tîm Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth gysylltu â'r ICO i edrych ar lwybrau posibl am sicrwydd o gydymffurfiaeth â RhDDC.</p> <p>02/06/2020 – Cyfarfod gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth a Phennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth wedi'i drefnu ar ôl CA mis Mawrth ond cafodd ei ganslo oherwydd Covid. Cyfarfod i gwblhau'r safbwynt ar y camau nesaf arfaethedig ar gyfer mis Mehefin.</p> <p>30/07/2020</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfodydd uchod a thrafodwyd y posibilrwydd o wahodd yr ICO i'w archwilio. Consensws y tîm rheoli oedd, er ein bod yn cydnabod</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>bod hwn yn faes hollbwysig, teimlwn ein bod yn canolbwyntio'n well ar ddatblygu ein rhaglen waith ein hunain ynghylch cydymffurfio yn hytrach na defnyddio adnoddau sy'n gysylltiedig ag archwiliad ICO ar ein cais.</p> <p>Gofynnodd y CA pryd y bydd yr holl waith yn cwblhau bod ICO yn cael gwahoddiad yn ogystal â rhoi cipolwg gwahanol ar fylchau sy'n bodoli.</p> <p>17/09/20</p> <p>Trafodwyd arweinydd risg CCA a CA a chytunwyd i ddefnyddio archwiliad TIAA ar gyfer mis Medi fel llwybr cychwynnol ar gyfer rhoi sicrwydd pellach. Datblygodd CG gydag arweinydd archwilio o ganlyniad a defnyddir y canfyddiadau wedyn i bennu'r camau nesaf priodol.</p> <p>19/10/2020</p> <p>Mae TIAA wedi cwblhau adolygiad archwilio mewnol o faterion. Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio pan dderbyniwyd yr adroddiad adolygu.</p> <p>20/11/20</p> <p>ICO FOI Healthcheck wedi'i gwblhau a'i rannu gydag arweinydd Risg JAC yn dilyn cyfarfod JAC Oct20. Derbyniwyd adroddiad drafft gyda phwyntiau o eglurder a chywirdeb yn cael eu holi ar hyn o bryd.</p>	
	102b	<b>Trosolwg Archwilio Mewnol</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ymateb i'r CA yn ymwneud â'r rheswm dros ddiwygiadau dyddiad dyledus a sut y byddai mater RhDDC sy'n ymwneud â data sensitif a gedwir ar yriannau Rhwydwaith yn cael sylw drwy NEP a mudo i amgylchedd Cwmwl.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>17/09/20</p> <p>E-bostiwyd Arweinydd Risg CA gan y CCA 31/07/20gyda rhesymau dros y diwygiadau dyddiad dyledus wedi'u hamlygu. Pwysleisiwyd bod yr angen i sicrhau bod dyddiadau priodol ar argymhellion TIAA yn rhesymol ac yn realistig cyn cytuno wedi'i bwysleisio i'r rhai sy'n cynnal archwiliadau gan y DFA a'r HoF.</p> <p>E-bostiodd y CCA yr Arweinydd Risg CA ar 31/07/20 parth. GDPR: "Er mwyn lliniaru'r mater RhDDC y</p>	



DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>cyfeirir ato yn y pen draw, byddai angen i unrhyw ateb sicrhau mai dim ond data sy'n cydymffurfio â RhDDC sy'n cael ei fudo i'r Cwmwl (Ile mae angen ei reoli wedyn mewn ffordd strwythuredig) a hefyd bod angen rheoli unrhyw ddata nad yw'n mudo yn briodol...</p> <p>Mae darparu adnoddau ar gyfer y ffrwd waith naill ai drwy dîm prosiect yr NEP neu drwy ffrwd waith ar wahân yn cael ei drafod ar hyn o bryd gydag achos busnes ar y gweill."</p> <p>05.10.2020 – Holodd aelod o'r CA sut fyddai symud data sydd ddim yn cydymffurfio i'r cwmwl o gymorth wrth liniaru risg ac yn gadael yr Heddlu gyda data sydd ddim yn cydymffurfio ar y gyriant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod data cydymffurfiaeth yn cael ei fudo i'r Cwmwl ond ei fod hefyd yn edrych ar faterion gwaddol er mwyn edrych ar y mater ymhellach. Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i edrych i'r mater ymhellach a diweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>2020.11.20 - Diweddariad pellach ynghylch dull a anfonwyd drwy'r e-bost gan Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau at arweinydd Risg JAC.</p>	
	103d	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Risg a Pharhad Busnes Arwain at ddiwygio fformat yr adroddiad mewn ymgynghoriad ag Arweinydd Risg	Ar unwaith	Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	<p>02/09/20 Diweddariad Arweinydd Risg a BC. Trafododd Arweinydd Parhad Risg a Busnes y mater hwn gyda'r Arweinydd Risg JC ar 28/08/20. Cytunwyd bod yr Adroddiad Uchafbwyntiau Risg yn parhau i gael ei gyflwyno mewn dwy adran, h.y. Sesiwn Agored a Sesiwn Caeddig. Bydd y Sesiwn Agored yn parhau i ddogfennu'r holl Risgiau ar Gofrestr Risg yr Heddlu neu Gofrestr Risg COVID19 nad ydynt wedi'u negyddu. Dim ond drwy eithriad y bydd yr Adroddiad Sesiwn Caeddig yn adrodd am Risgiau, h.y. Risgiau Newydd, Risgiau Caeddig, Newidiadau Risg ac ati a fydd yn lleihau maint yr adroddiad Amlygu Risg cyffredinol.</p> <p>19/10/2020 – Bydd Prif Uwcharolygydd</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>Gwasanaethau Corfforaethol yn symud hyn ymlaen gyda James a Neil.</p> <p>12/11/20 – Derbyniwyd adborth gan Rachel Barber a John Cunliffe sydd wedi'i ymgorffori i'r adroddiad risg ar gyfer cyfarfod y CA 10/12/20</p>	
	105a	<p><b>Bwrdd Sicrwydd</b> – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i ddod â rhestr o brofion Brig Bwrdd i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.</p>	Cyfarfod mis Hydref	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	<p>Rydym yn cydnabod bod hon yn agwedd bwysig ar ein gwaith sicrwydd, a byddwn yn ceisio canolbwyntio arno mewn ystyr ystyrion unwaith y bydd gallu i wneud hynny ar ôl ymdrin â materion pwysig BC o ddysgu'r gwersi o COVID. Mae prosesau ar waith gyda pharhad busnes un pwynt cyswllt ar gyfer ymarferion brig bwrdd parhaus, ac ymarfer blynyddol ar lefel yr Heddlu cyfan, ond nid oes amserlen ffurfiol/fanwl ar waith ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd amserlen brofi lawn yn rhan o'n hymateb ond mae angen i ni roi ystyriaeth briodol iddi cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gydbwyllgor Archwilio. Byddaf yn anelu at gael y wybodaeth ddiweddaraf lawnach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor yn manylu ar y rhestrau profi cyfredol ac arfaethedig.</p> <p>05.10.2020 – Blwyddyn ddigynsail ac mae llawer wedi'u profi mewn amser real. Adolygiad arall ddechrau'r flwyddyn nesaf. Diweddariad llawnach i'w roi yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2020.</p> <p>12/11/20 Mae dau brawf parhad busnes wedi'u trefnu ers cyfarfod diwethaf y CA.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>10/11/20 Ymarfer Seiber Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru – wedi'i ohirio oherwydd anawsterau technegol, i'w aildrefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr 2020</li> <li>17/12/20 – Ymarfer parhad Busnes Ymadael â'r UE. Fersiwn wedi'i diweddarau o ymarfer Ymadael â'r UE a gynhaliwyd yn flaenorol ar 09/10/20</li> <li>Mae papur opsiynau parhad busnes wedi'i baratoi</li> </ul>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>ar gyfer grŵp tactegol Adfer Covid 19 13/10/20 er mwyn ystyried ymestyn cynlluniau parhad busnes pwrpasol i bob maes gan gynnwys meysydd risg isel. Bydd hyn yn hysbysu graddfa'r gwaith parhad busnes i'w ymgymryd. Bydd hefyd yn hysbysu'r amserlen profi ar gyfer 2021 a fydd yn cael ei chreu fel rhan o'r gwaith.</p> <p>Yng ngoleuni problemau gallu o fewn y tîm sicrwydd, cytunwyd ar aelod o staff dros dro a fydd ar gael o'r Adran Cynllunio Gweithredol i gynorthwyo dros dro gyda'r gwaith parhad busnes.</p>	
	110	<p><b>Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio</b> – Gofynnodd y Prif Swyddog Cyllid am adlewyrchu meysydd y mae angen mwy o sicrwydd arnynt o fewn y Rhaglen Waith Flynyddol.</p>	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	<p>Nodwyd Gwerth am Arian fel maes allweddol lle mae angen mwy o sicrwydd ar y CA ac mae hyn ar y Rhaglen Waith.</p> <p>Mae'r Rhaglen Waith bellach yn cael ei chyflwyno ar sail dreigl ym mhob cyfarfod CA, sy'n ei gwneud yn bosibl ychwanegu mewn meysydd wrth iddynt gael eu nodi.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>	
	111	<p><b>Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21</b> – Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith gyda diwygiadau/ychwanegiadau wedi'u hawgrymu – Gwerthusiad y CA ac Adroddiad Blynyddol y CA yng nghyfarfod mis Mawrth 2021 a Datganiad Rheoli'r Heddlu i'w symud o fis Rhagfyr 2020 tan fis Mawrth 2021.</p>	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	<p>Diweddarwyd y rhaglen waith hon fel y cytunwyd. Mae'r rhaglen waith bellach yn eitem reolaidd ar agenda'r CA, gan roi cyfle i aelodau a staff y CA gytuno ar ddiwygiadau ac ychwanegiadau yn ôl yr angen.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>	
	115	<p><b>Diweddariad Sefydliad – SCHTh</b> – Y Prif Swyddog Cyllid i gynnig y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel eitem</p>	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	<p>Edrychir ar yr eitem hon yn y cyfarfod i'w gynnal ar 30 Mawrth 2021.</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		agenda At Wraidd y Mater ym mis Rhagfyr.				
	118a	<b>Archwilio mewnol</b> – Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu canlyniadau'r asesiad ICO ar-lein gydag aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (John Cunliffe).	Ar unwaith	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Derbyniwyd asesiad a bydd yn cael ei rannu gydag aelodau o'r CA. 10/11/2020 – Crëwyd adroddiadau yn dilyn cwblhau'r pecyn cymorth ICO a dderbyniwyd gan Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth. Rhannwyd gydag aelodau o'r CA 10/11/2020. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	118b	<b>Archwilio mewnol</b> – Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu CBN Canllawiau Chwythu Chwiban NIAO gyda Chadeirydd newydd y Pwyllgor Moeseg.	Pan mae Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg yn ei swydd	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Gwnaiff y Swyddog Cyllid a Chyllidebau rannu CBN y Canllawiau Chwythu Chwiban pan mae'r Cadeirydd yn ei swydd. Ar 04/11/2020 nid oes neb yn y swydd. 10/11/2020 – Trosglwyddwyd y CBN a chopi o'r rhestr wirio wedi'i chwblhau at Gadeirydd dros dro'r Pwyllgor Moeseg a'r CP. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	118c	<b>Archwilio Mewnol</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r tabl o dan Atodiad 1 gyda Dyddiadau Dyledus Diwygiedig ar gyfer argymhellion archwiliad mewnol neilltuol.	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Sicrhau ei fod wedi'i ddiweddarau cyn y cyfarfod nesaf. 20/11/20 - Diweddarwyd dyddiadau hwyr ar 13/11/20 ac fe'u hadlewyrchir yn adroddiad yr Archwiliad Mewnol. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	118d	<b>Archwilio mewnol</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar fesurau sydd mewn lle i liniaru yn erbyn bygythiadau diogelwch seiber ac a oes unrhyw bosibilrwydd <del>am</del> o gwtogi amserlenni wrth weithredu.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Cyfarfodydd yn digwydd i roi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod nesaf.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	118e	<b>Archwilio mewnol</b> – Prif Swyddog Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid i gyflwyno Adroddiadau at Wraidd y Mater amlwg i'r Cydbwyllgor Archwilio fel y mae'n briodol – diweddarau'r Rhaglen Waith i adlewyrchu.	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Rhaglen Waith wedi'i diweddarau bellach i adlewyrchu materion At Wraidd y Mater yn y dyfodol. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	119a	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Swyddog Risg a Pharhad Busnes i roi'r copi diweddaraf o'r Gofrestr Risg lawn i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn bob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Swyddog Risg a Pharhad Busnes	12/11/20 Mae'r Risg yn manylu dogfennau ar gyfer bob risg ac mae'r gofrestr risgiau wedi'i diweddarau ar y gyriant a rennir a bydd yn cael ei ddiweddarau'n fisol o hyn ymlaen. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	119b	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Arweinydd Risg y CA, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a Swyddog Risg a Pharhad Busnes i gysylltu er mwyn sicrhau y derbynnir mwy o sicrwydd gan y ddogfen yn y dyfodol.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Arweinydd Risg y CA, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a Swyddog Risg a Pharhad Busnes	Trefnu cyfarfod cyn bob Cydbwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau y derbynnir sicrwydd pellach.	
	119c	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Swyddog Parhad Risg a Busnes i ddiweddarau tablau 1 a 2 a rhoi eglurhad pellach o ran Tabl 3 erbyn y cyfarfod nesaf.	Cyfarfod mis Rhagfyr	Swyddog Risg a Pharhad Busnes	12/11/20 Ceir mwy o eglurhad yn yr adroddiad risgiau ar gyfer CA 10/12/20	
	120	<b>Diweddariad Gwerth am Arian</b> – Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio sut y gellid adlewyrchu gwerth am arian yn well mewn papurau i'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol ac ystyried ei ymgorffori i raglen waith Archwilio Mewnol 2021-22.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Diweddarau'r Rhaglen Waith i roi sicrwydd yr ystyrir Gwerth am Arian ac eitemau penodol pellach ar yr agenda yn y dyfodol.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	123a	<b>Bwrdd Llywodraethu</b> – Prif Swyddog Cyllid i osod eitem ar agenda'r Bwrdd Llywodraethu nesaf yn adlewyrchu pa Strwythurau Llywodraethu sydd eisoes mewn lle o fewn yr Heddlu.	Cyfarfod Nesaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu	Prif Swyddog Cyllid	Mae eitem agenda wedi'i rhoi ar agenda'r Bwrdd Llywodraethu. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	123b	<b>Bwrdd Llywodraethu</b> – Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i sicrhau fod cofnodion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn adlewyrchu geiriad priodol o ran y CBNs a gyflwynwyd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu a gynhaliwyd fwyaf diweddar.	Wedi cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu	Prif Bennaeth Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Mae adroddiad y Prif Swyddog Cyllid wedi'i adolygu gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau er mwyn sicrhau cywirdeb. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	123c	<b>Adolygiad Llywodraethu</b> – Prif Swyddog Cyllid i ymgorffori Adroddiad Cynnydd Adolygiad Llywodraethu i raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	Ar yr agenda. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	124	<b>Rhaglen Waith</b> – Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith i adlewyrchu newidiadau o'r ddau gyfarfod diwethaf a chreu rhaglen waith ar gyfer Sesiwn Gaeedig y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	Prif Swyddog Cyllid i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer sesiwn Gaeedig.	
	125a	<b>Unrhyw Fater Arall – Cyrchu TGCh</b> – Prif Swyddog Cyllid i gynnwys eitem Cyrchu TGCh o fewn y rhaglen waith.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	20/11/20 - Ar yr agenda ar gyfer risg deifio dwfn ac adlewyrchu yn y rhaglen waith. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	125b	<b>Unrhyw Fater Arall – Cyrchu TGCh</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/11/20 – Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 26/11/2020	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Adnoddau i ymgynnull cyfarfod gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod y cytundeb Cyrchu TGCh.			<a href="#">Awgrymu cau'r gweithrediad.</a>	

**Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf – archifwyd ym mis Mawrth 2020 – ar gael ar gais**

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	22a	<b>UFA – RhDDC</b> – Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar rannu gwybodaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o dan y RhDDC newydd.	Ar unwaith	PSG	<p>Angen Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn gweithio ar hwn.</p> <p>ISA/MOU yn cael ei ddrafftio ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng SCHTh a HGC. Awgrymir cael un ddogfen i gyd-fynd â'r Protocol Plismona. Nid yw'r Prif Swyddog Gweithredol yn credu bod angen hyn gan fod rhannu gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn y Protocol Plismona a deddfwriaeth oedd yn cynnwys gwaith y Comisiynydd ond mae gwaith yn mynd yn ei flaen rhwng y ddau sefydliad. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.</p> <p>09/10/2019 – Prif Swyddog Gwybodaeth/Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn parhau i gydlynu gyda Heddluoedd eraill i weld beth sydd angen/rhaid gwneud ond mae'r Protocol Plismona yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth rhwng SCHTh a Heddluoedd.</p> <p>04/03/2020 – Mae drafft cyntaf y Memorandwm Dealltwriaeth wedi'i dderbyn ac mae sylwadau a cheisiadau am ddiwygiadau wedi'u gwneud. Gwnaiff y PSG gysylltu gyda Phrif Swyddog Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn cwblhau'r ddogfen hon.</p>	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>09/03/2020 – Gobeithio cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd mis Mawrth.</p> <p>02/06/20 – Disgwyl am y ddogfen derfynol y mae gofyn amdani erbyn diwedd mis Mehefin. Cylchredir y ddogfen hon i aelodau'r CA pan fydd wedi'i chwblhau.</p> <p>07/07/2020 Rhannwyd gydag aelodau o'r CA.</p> <p>30/07/2020 Holodd aelod o'r CA os yw'r papur yn adolygu a gynhwysir cofnodion papur fel y gofelir hefyd yn RhDDC. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p> <p><b>30/07/2020 Pan adolygir papur yn y dyfodol, iddo gynnwys cofnodion papur yn ogystal â digidol.</b></p>	
	42	<b>Swyddfa Archwilio Cymru – Llythyrau Ymchwiliad Twyll</b> – Yn y dyfodol, y Prif Swyddog Cyllid i gynnig ymateb o'r blynyddoedd blaenorol i'r Llythyrau Ymholiadau Twyll ar gyfer y ddwy flynedd ochr yn ochr mewn dogfen sengl er mwyn i'r Cydbwyllgor Archwilio allu cymharu'r ddau yn rhwyddach.	Gorffennaf 2020	PSC	<p>Cyfredol.</p> <p>08/06/2020 Dogfen yn cael ei chreu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod. Fel y gofynnwyd, rhoddir gwybodaeth am y ddwy flynedd yn yr un ddogfen i gynorthwyo cymharu.</p> <p><b>30/07/2020 – Ar yr agenda. Gweithrediad wedi cau.</b></p>	Wedi cau
	59b	<b>Archwilio Mewnol</b> – Archwilio Mewnol i wirio pa weithrediad sydd wedi'i gymryd yn erbyn yr argymhelliad Sicrwydd Data.	Cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	<p>Caewyd un o'r argymhellion ar Ddilyniant 2018/19. Bydd y ddau sydd ar ôl yn cael eu hasesu yn ystod dilyniant 2019/20.</p> <p>28/11/2019 Bydd archwiliadau dilynol yn digwydd yn Chwefror/Mawrth a byddant yn adrodd am y canfyddiadau.</p> <p>04/03/2020 Adolygiad dilynol archwilio mewnol yn cael ei gynnal yn yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth.</p> <p>03/06/2020 – Adolygwyd fel rhan o ddilyniant 2019/20 ac maent wedi cwblhau. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>	Wedi cau
	79b	<b>Adroddiad Archwilio Mewnol ac Adroddiad Cynnydd</b> – Archwiliad Mewnol i osod colofn ychwanegol ar gyfer sylwadau o fewn y tabl Nodiadau	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	<p>Anfonwyd y SICA i'w gyfieithu cyn derbyn y cofnod gweithrediadau. Adroddiadau yn y dyfodol i'w diwygio'n unol â hynny a chysylltir â Rheolwyr am ymatebion.</p>	Wedi cau



DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Cyfarwyddyd Cleientiaid.			02/06/20 – Amserlen fewnol wedi'i pharatoi gyda cholofn ychwanegol ar gyfer ymateb Rheolwyr. Cael ei adrodd yn fewnol drwy UDRh C&A – ceir fel rhan o'r papurau o dan eitem 102 cyfarfod mis Gorffennaf. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	89	<b>Cofnod Gweithrediadau</b> – Cofnod Gweithrediadau i gael ei ddiweddarau cyn y cyfarfod er mwyn edrych ar y gweithrediadau trwy eithriad yn y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cynorthwydd Personol	02/06/20 – Yr ysgrifenyddiaeth i gydlynu dilyniant cyfnodol ar weithrediadau. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	91a	<b>Archwilio Mewnol</b> – Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys adroddiad cwmpasu/crynodeb gweithredol at gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	02/06/20 – Ychwanegu adran Rheolaeth Fewnol at Uwch Dîm Rheoli C&A fel eitem agenda sefydlog. Bydd adroddiadau cryno yn rhoi allbwn llawer byrrach ar gyfer y CA. Y bwriad yw parhau i rannu'r ddogfennaeth bapur waith greiddiol gydag aelodau'r CA cyn y cyfarfod ei hun. Darparu fformat newydd o bapurau o dan eitem 102 o gyfarfod mis Gorffennaf. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad..</b>	Wedi cau
	91c	<b>Archwilio Mewnol</b> – Y Cadeirydd i nodi o fewn Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio fod y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn fodlon na ddefnyddiwyd yr holl ddyddiau a ddyrannwyd i Archwilio Mewnol a'u bod i'w cario i'r flwyddyn ariannol nesaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio	Cynnwys y datganiad o fewn Adroddiad Blynyddol 2019/20. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	91d	<b>Archwilio Mewnol</b> – Archwilio Mewnol i ychwanegu colofn arall i'r tabl yn Atodiad 2 y Nodyn Cyfarwyddyd Cleientiaid i ystyried Gweithred Rheolwyr.	Ar unwaith	Archwilio Mewnol – Rŵan yn Swyddog Trysorlys a Chyllidebau	02/06/20 – Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Cleientiaid yn cael eu monitro bellach drwy Uwch Dîm Rheoli C&A a bydd y CA yn cael ei hysbysu o dan adran rheolaeth Fewnol yr agenda (dolenni at weithrediad 91a). <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	93a	<b>Proses Rheoli Risg</b> – Prif Uwcharolygydd Dros Dro i rannu swydd ddisgrifiad Risg a Pharhad Busnes gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Rhannwyd y ddogfen gyda CA 10/03/2020 <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	93b	<b>Proses Rheoli Risg</b> – Cadeirydd y Bwrdd	Ar unwaith	Cadeirydd y Bwrdd	02/06/20 – Cyflawni cynnydd HGC o ran bod yr	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Sicrwydd i sicrhau fod monitro parhaus o'r Fframwaith Rheoli Risg a chyflawni'r camau nesaf yn cael eu symud ymlaen drwy'r Bwrdd Sicrwydd.		Sicrwydd	agenda risg (gan gynnwys mapio sicrwydd risg, chwant risg, categoreiddio risg) yn cael ei harwain gan yr arweinydd risg sydd newydd ei benodi, ac a oruchwylir gan y Bwrdd Sicrwydd. Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd i gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	93c	<b>Proses Rheoli Risg</b> Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod y Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hysbysu am ddiweddariadau cynnydd o ran cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risg yn barhaus.	Ar unwaith	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd	02/06/2020 – Bydd yr Arweinydd Risg yn rhoi Adroddiad Risg yn gofalu am gynnydd cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risgiau er mwyn i'r CA graffu. Mae hon yn eitem sefydlog ar yr agenda. Gwnaiff Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	93d	<b>Proses Rheoli Risg – Cyfarwyddwr</b> Cyllid ac Adnoddau i ofyn i Gadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i baratoi papur a mynd i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/06/2020 Gwahoddwyd Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i ddod a pharatoi papur. Paratoi papur ac eitem agenda o Rôl a Chylch Gwaith y Bwrdd Sicrwydd ar gyfer agenda mis Gorffennaf. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	94a	<b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol –</b> Ailedrych ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu er mwyn sicrhau gwahaniaethau gwahanol rhwng Byrddau Llywodraethu a Sicrwydd.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	02/06/2020 – Trafodwyd ac edrychwyd ar y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod y Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Mawrth 2020. Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r newidiadau a gytunwyd arnynt yn y cyfarfod. (Cylchredwyd y fersiwn ddiweddaraf i CA 03/06/2020). Mae diben ac amcanion y cyfarfod yn wahanol a nodweddiadol i'r rai'r Bwrdd Sicrwydd. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Sicrwydd (cylchredwyd 03/06/2020). (Dalier sylw, paratowyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Sicrwydd gan ddefnyddio'r hen fformat a bydd yn cael ei fformatio yn unol â'r templed corfforaethol newydd faes o law.) <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	94b	<b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol –</b> Prif Uwcharolygydd Dros Dro	Mehefin	Prif Uwcharolygydd Dros Dro	02/06/2020 – Mae Swydd Ddisgrifiad ar gyfer y Swydd Llywodraethu yn cael ei ail-werthuso ar hyn	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Gwasanaethau Corfforaethol i ddrafftio swydd ddisgrifiad Llywodraethu a'i rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Ei gosod ar agenda cyfarfod all-lein mis Mehefin.		Gwasanaethau Corfforaethol	o bryd ac felly ailedrychwyd arno'n ddiweddar. Rhannwyd y swydd ddisgrifiad diweddaraf gydag aelodau'r CA 08/06/2020. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	94d	<b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol</b> – Llywodraethu i gael ei olrhain/craffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyda chrynodeb gweithredol yn cael ei greu ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	02/06/20 – Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu i ymgorffori'r agwedd hon o'r bwrdd. Diweddariad llywodraethu ar agenda mis Gorffennaf 2020. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	96	<b>Cynllun Archwilio Mewnol</b> – Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod y 14 o ddyddiau Archwilio Mewnol nas defnyddiwyd yn y Flwyddyn Ariannol hon i'w cario drosodd i 2020-2021.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Mae TIAA wedi rhoi bil am y dyddiau a weithiwyd yn 2019/20. Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi cael ei dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	97	<b>Cynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru</b> – Pennaeth Cyllid ac Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod fformat cyfarfod mis Mehefin.	Cyn cyfarfod mis Mehefin.	Pennaeth Cyllid ac aelod o'r CA	02/06/20 – trafodwyd a chylchredwyd agenda ddrafft. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	99a	<b>UFA – Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio</b> – Pennaeth Cyllid i roi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio ar sut y mesurir Gwerth am Arian o fewn Heddlu Gogledd Cymru.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	02/06/20 – Cynnig eitem a chyflwyniad ar gyfer agenda mis Gorffennaf 2020. Argymhell eitem agenda mis Gorffennaf 2020. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	99b	<b>UFA – Blaengynllun Gwaith</b> – Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod Blaengynllun Gwaith i'w gynnwys fel eitem agenda yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol er mwyn galluogi aelodau'r	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	<b>Ar yr agenda fel eitem sefydlog. Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Cydbwyllgor i adolygu a chipio gweithgarwch yn y dyfodol.				
	99c	<b>UFA – Bwrdd Cyd Lywodraethu</b> – Cynorthwydd Personol i ddiweddarau gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol	<b>Gwefan wedi'i diweddarau i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu. Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	Wedi cau
	91b	<b>Archwilio Mewnol</b> – Datganiadau Rheolwyr yr Heddlu i'w rhoi ar y Bwrdd Cyd Lywodraethu ac Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Prif Swyddog Cyllid	02/06/2020 Nid oes rhwymedigaeth i greu Datganiad Rheolwyr yr Heddlu yn ystod 2020/21. Edrychir ar y ddogfen fodd bynnag a bydd yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2021. 30/07/2020 CFO i ddiweddarau'r rhaglen waith i adlewyrchu newid rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	94c	<b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol</b> – Rheolwr Llywodraethu Dros Dro i rannu Cynllun Dirprwyo drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio am eu sylwadau.	Ar unwaith	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro / Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio	03/06/2020 – mae drafft o Gynllun Dirprwyo'r Prif Gwnstabl wedi'i rannu eisoes 03/06/2020. Mae'r drafft ar hyn o bryd yn amodol ar adolygiad gan Brif Swyddogion yr Heddlu. 26/06/2020 – Rhannwyd drafft gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. 30/07/2020 – Aelodau CA i anfon sylwadau ar y ddogfen erbyn diwedd mis Awst a phapur i'w gyflwyno gyda Chyfrifon terfynol ym mis Hydref. 11/08/2020 – Anfonwyd rhagor o e-bost at aelodau CA yn gofyn am sylwadau erbyn diwedd mis Awst. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	102a	<b>Trosolwg Archwilio Mewnol</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys y manylion y gofynnwyd amdanynt ar gyfer yr adroddiad cyfredol ac ar gyfer cyfarfodydd dilynol y Cydbwyllgor Archwilio.	Ar gyfer cyfarfod mis Hydref	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Ail-ysgrifennwyd yr adroddiad yn gyflawn gyda newidiadau a'i gyflwyno i aelodau CA ar 31/07/2020.  Bydd yr adroddiad diwygiedig yn cael ei chyhoeddi ymhellach ymlaen. <b>Argymhell cau'r gweithrediad hwn.</b>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	103a	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Cynorthwydd Personol i roi adroddiad at wraidd y mater Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli ar agenda'r cyfarfod nesaf ac Arweinydd Risg a Pharhad Busnes i sicrhau bod swyddogion priodol yn bresennol i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Cynorthwydd Personol ac Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli wedi'i osod ar yr agenda <b>02/09/20</b> Anfonwyd e-bost at PA i wahoddiad gael ei yrru at y Prif Uwcharolygydd Neill Anderson a Keith Williams i un neu'r ddau fynychu'r CA ar 5 Hydref i gyflwyno 'At Wraidd y Mater' Risg 54 i'r aelodau – Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli. <b>03/09/2020</b> Gyrrwyd gwahoddiad i'r ddau. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	103b	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol DD i egluro geiriad ynghylch cau risgiau ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	<b>02/09/20</b> Mae Cau Risg wedi'i gynnwys yn ein Dogfen Fframwaith Mapio Rheoli Risg a Sicrwydd yr Heddlu fel a ganlyn: <b>Cau risgiau</b> <i>Gellir cau risg pan fydd wedi'i reoli i lefel dderbyniol(y lefel darged fel arfer) neu fod yr amgylchiadau o'i gwmpas wedi gwella. Rhaid mynegi sicrwydd (tystiolaeth i gefnogi'r cau) yn y templed risg. Rhaid i'r UDRh neu'r Bwrdd Prosiect sy'n berchen ar y risg gymeradwyo cau a dyrannu gweithrediad i'r Arweinydd Risgiau er mwyn sicrhau y diweddariad ac y disodlir y risg o Gofrestr Risgiau'r Heddlu.</i> <i>Os oes risgiau agored pan gaeir y prosiect, yna cyfeirir y risgiau at yr UDRh perthnasol ar gyfer penderfyniadau ar reoli'r risg(iau) hwnnw/hynny yn y dyfodol.</i> <i>Ni ail-agorir risgiau sydd wedi cau. Os yw risg yn dod yn weithredol eto, rhaid ei gofnodi fel risg newydd.</i>  Mae'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes wedi adolygu'r cofnod hwn a'n proses	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>bresennol o Gau Risg a bydd yn sicrhau bod gan risgiau y gofynnir amdanynt i'w cau sail resymegol gan y Perchennog Risg/Arweinydd sy'n amlwg yn bodloni un neu fwy o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbynnir y Risg</li> <li>• Mae'r Risg yn cael ei thrin, h.y. Mae rheolaethau wedi bod yn effeithiol a chyrraedd Lefel targed Risg</li> <li>• Mae'r Risg yn cael ei throsglwyddo</li> <li>• Mae'r Risg yn cael ei diweddu</li> </ul> <p>Bydd y Ddogfen Fframwaith Mapio Sicrwydd yn cael ei diweddarau yn unol â hyn.</p> <p>05.10.2020 – Ceisiwyd eglurhad gan y Cadeirydd bod 4 o'r categorïau uchod yn cael eu gweithredu pe caeid y gweithrediad. Cadarnhaodd Pennaeth Cudd-wybodaeth mai nid fel hyn y byddai hi gan eu bod i gyd wedi integreiddio i'r Cynnydd Risg.</p> <p><b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b></p>	
	103c	<b>Diweddariad Risgiau</b> – Risg a Pharhad Busnes Gellid cynnwys arwain at ddiweddarau'r llinellau amser gwreiddiol a diwygiedig yn y diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio nesaf.	Ar unwaith	Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	<b>02/09/20 Diweddariad Arweinydd Risg a BC.</b> Mae'r diweddariad gweithredu hwn wedi'i gynnwys yn Adroddiad Uchafbwyntiau Risg CA. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	105b	<b>Bwrdd Sicrwydd</b> – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu camau gweithredu a log penderfyniadau'r Bwrdd Sicrwydd a drafft cyntaf y Cylch Gorchwyl a adolygwyd gydag	Cyn gynted ag y mae ar gael	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Wedi'i ddarparu ar wahân. Cyfarfod diwethaf y Bwrdd Sicrwydd oedd cyfarfod mis Gorffennaf 2020, gan fod cyfarfod mis Awst 2020 wedi'i ganslo oherwydd diffyg mynychwyr. Mae'r camau gweithredu a phenderfyniadau, a'r cylch gorchwyl wedi'u darparu. Y cyfarfod nesaf yw 09/09/20 lle	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.			bydd y cylch gorchwyl diwygiedig a ddarperir hefyd yn cael ei gyflwyno. 04.09.2020 – Cylch Gorchwyl a Log Penderfyniadau wedi'i rannu gydag aelodau. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	105c	<b>Bwrdd Sicrwydd</b> – Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes i ddod â phapur diweddarau i gyfarfod mis Hydref o'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes	Ar yr agenda. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	107a	<b>Cynllun adfer Covid-19</b> – PGC Dros Dro i roi eglurhad ar sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn paratoi ar gyfer ail don y pandemig.	Ar unwaith	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro	Mae Heddlu Gogledd Cymru yn benodol yn hytrach na'r Fforwm Cydnerth Lleol ehangach yn parhau i fod â strwythur gorchymyn Strategol/Tactegol/Gweithredol wedi'i nodi ynghylch ymateb COVID. Y prif risg i HGC yw capasiti os bydd cyfraddau absenoldebau yn dechrau codi. Fel y cyfryw, rydym yn ceisio ymdrin ag absenoldebau drwy wneud ein hadeiladau'n ddiogel, gan wneud y mwyaf o ymbellhau cymdeithasol, pentyrru PPE, rhaglen frechu yn erbyn y FFLIW. Mae gennym dros 800 o'n staff o hyd sy'n gallu ac yn gweithio o gartref yn bennaf. Mae gennym gynlluniau ar draws swyddogaethau hanfodol megis Yr Ystafell Reoli, y Gwasanaeth Plismona Lleol a Drylliau Tanio sy'n caniatáu tynnu gwasanaeth yn ôl a hefyd defnyddio cymorth trawsweithredol. Gallwn barhau i recriwtio drwy ddysgu ar-lein sydd wedi'i ddatblygu. Mae gennym ddata rheoli manwl a oedd yn rhoi cipolwg ar unrhyw absenoldebau. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	108a	<b>Datganiad Cyfrifon</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Prif Swyddog Cyllid/Pennaeth Cyllid i gyfarfod i sicrhau bod holl sylwadau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hystyried ar gyfer gweithredu ac	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid / Pennaeth Cyllid	17/09/20 – Cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng DFR, HoF a CFO i ddatblygu dull gweithredu o amgylch Cyflwyniad, Adroddiad Naratif ac AGS i ddatblygu amserlenni ar gyfer cyhoeddi set ddrafft diwygiedig o gyfrifon. Cynyddodd amlder y diweddariadau i arweinydd Cyllid cynyddodd a diweddarwyd y dull a adroddwyd i JGB ar	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		adrodd yn ôl i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio eu trafod.			07/09/20, cyfrifon drafft a ddosbarthwyd ar 10/09/20 ac a adolygwyd wedyn ar 15/09/20 gyda chadeirydd Cyllid a'r CA. Adborth pellach ar y 15fed i'w adlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon a ddosbarthwyd i CA mis Hydref. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	108b	<b>Datganiad Cyfrifon</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Pennaeth Cyllid i gymryd sylwadau ymaith i geisio'u cynnwys yn y papur.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cyllid	17/09/20 Cyfrifydd rheolaeth ariannol yn cynyddu'r ymateb gyda'r bwriad o gylchredeg cyn CA Mis Hydref. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	108c	<b>Datganiad Cyfrifon</b> – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Pennaeth Cyllid i ymchwilio i weld a yw'r terfynau a bennwyd ar pryd y mae angen benthyca tymor byr ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cyllid	17/09/20 Cyfrifydd rheolaeth ariannol yn cynyddu'r ymateb gyda'r bwriad o gylchredeg cyn CA Mis Hydref. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	108d	<b>Datganiad Cyfrifon</b> – Pawb i sicrhau bod papurau'n cael eu dosbarthu i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio wythnos cyn y cyfarfod. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod cais y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys 100 a mwy o gwestiynau a oedd wedi'u trafod yn systematig. Nid oedd pob un ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i Heddlu Gogledd Cymru ond roedd y themâu yn yr ymholiadau yn berthnasol ac yn rhoi rheswm dros oedi i feddwl mewn rhai ardaloedd.	Cyfarfod mis Hydref	Holl	17/09/20 Diweddariad DFR: Mae newidiadau wedi parhau i ymddangos yn hwyr yn y broses ond mae'r tîm Cyllid yn ceisio sicrhau'r ffenestr fwyaf posibl sydd gan aelodau CA i adolygu'r wybodaeth berthnasol. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	
	108e	<b>Datganiad Cyfrifon</b> – Cynorthwydd Personol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ymateb y Swyddfa	Cyfarfod mis Hydref	Cynorthwydd Personol	Ymateb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar agenda cyfarfod mis Hydref CA. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	



DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Archwilio Genedlaethol ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref.				
	109	<b>Adolygiad Llywodraethu</b> – Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar yr Atodiad a phrosiectau/targedau yn y cyfarfod nesaf.	Cyfarfod mis Hydref	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Ar yr agenda. <b>Awgrymu cau'r gweithrediad.</b>	

Allwedd Talfyriadau	
<b>PG</b>	Prif Gwnstabl
<b>PSG</b>	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
<b>PSC</b>	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
<b>CCA</b>	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
<b>Pennaeth Cyllid</b>	Guto Edwards
<b>Pennaeth Caffael</b>	Patricia Strong
<b>HMICFRS</b>	Gwnaeth Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
<b>CA</b>	Cydbwyllgor Archwilio
<b>HGC</b>	Heddlu Gogledd Cymru
<b>SCHTh</b>	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
<b>CP</b>	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC
<b>CHTh</b>	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
<b>ASP</b>	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
<b>TIAA</b>	Archwilio Mewnol
<b>SAC</b>	Swyddfa Archwilio Cymru



## Cydbwyllgor Archwilio

10 Rhagfyr 2020

<b>Teitl:</b>	Diweddariad Sefydliadol y SCHTh
<b>Awdur:</b>	Stephen Hughes, Prif Weithredwr
<b>Diben yr adroddiad:</b>	Diweddaru'r CA ar faterion SCHTh o bwys
<b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b>	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth
<b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>	Diweddaru'r CA ar <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynhadledd Triniaeth â Chymorth Heroin<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyllid Eich Cymuned Eich Dewis</li><li>• Ymgysylltu â'r Trydydd Sector</li></ul></li></ul>
<b>Argymhellion:</b>	Dim
<b>Effaith cofrestr risgiau:</b>	Dim
<b>Goblygiadau sicrwydd:</b>	Dim
<b>Effaith Cydraddoldeb:</b>	Dim
<b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>	Nag oes



## Cydbwyllgor Archwilio 10.12.20

### Diweddariad Sefydliadol y SCHTh

#### 1. Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 5 Hydref 2020. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny.

#### 2. Cynhadledd Lleisiau Coll, Bywydau Coll

Cynhaliodd y CHTh y gynhadledd hon ar 2 Tachwedd ac roedd yn falch o'i lwyddiant a'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan dros 120 o gynrychiolwyr a oedd yn bresennol o ledled Cymru a'r DU. Cododd y gynhadledd ymwybyddiaeth Triniaeth â Chymorth Heroin a chefnogaeth am gynllun peilot yng Ngogledd Cymru. Bydd trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Bwrdd Cynllunio Ardal. Ceir recordiad o'r gynhadledd ar wefan SCHTh

#### 3. Eich Cymuned, Eich Dewis

Lansiwyd cynllun Eich Cymuned Eich Dewis yn ddiweddar gan y CHTh a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r CHTh yn cyfrannu £30,000 o gyllid ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu £30,000 o gyllid sydd wedi'u hatafael gan droseddwr drwy'r Ddeddf Enillion Trosedd. Anogir grwpiau cymunedol ledled Gogledd Cymru i gynnig am y cyllid.

Hon yw wythfed flwyddyn y cynllun sy'n cael ei drefnu gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT). Dros y cyfnod hwnnw mae cyfanswm o £310,000 wedi'i roi i 106 o brosiectau sy'n gweithio i gynorthwyo'r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd.

Mae ceisiadau'n cau ar ddydd Gwener, 11 Rhagfyr, gyda'r ffurflen gais Eich Cymuned, Eich Dewis ar gael ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gwefan PACT. Dewisir rhestr fer o ymgeiswyr gan banel arbennig gyda'r enillwyr yn cael eu dewis gan bleidlais gyhoeddus.

#### 4. Digwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector

Ar 19 Tachwedd fe wnaeth y CHTh unwaith eto gynnal ei ddigwyddiad ymgysylltu blynyddol ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol / trydydd sector. Mae hwn yn ddigwyddiad pwysig yn y dyddiadur am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae'n rhoi cyfle i'r CHTh gydnabod gwaith caled yr asiantaethau hynny sy'n gweithio ar y rheng flaen ac yn cynorthwyo dioddefwyr trosedd ledled y rhanbarth. Mae ymateb gwych y trydydd sector i bandemig Covid-19 wedi gwneud digwyddiad eleni'n fwy arwyddocaol. Yn ail, mae rhoi cyfle i ymgynghori gyda'r rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr i sicrhau bod y CHTh a SCHTh yn parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol cywir.

<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Stephen Hughes, Prif Weithredwr</b>
----------------------------	--



### Cydbwyllgor Archwilio

**Dyddiad y Cyfarfod: 10 Rhagfyr 2020**

<b>Teitl:</b>	Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru
<b>Awdur:</b>	Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
<b>Diben yr adroddiad:</b>	Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am brif ddigwyddiadau a materion sefydliadol sy'n digwydd ers cyfarfod diwethaf o'r CA a gynhaliwyd ar 05.10.20.
<b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b>	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth
<b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>	<p>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r sefydliad am y cyfnod o 22.09.20 tan 20.11.20.</p> <p>Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.</p>
<b>Argymhellion:</b>	Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
<b>Effaith Cofrestr Risgiau:</b>	Dim.
<b>Goblygiadau Sicrwydd:</b>	Dim.
<b>Effaith Cydraddoldeb:</b>	Dim.
<b>Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:</b>	Dim – Holl gynnwys yn y Sesiwn <b>Agored</b>

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

10 Rhagfyr 2020

### Diweddariad Sefydliadol

#### Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru

##### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r sefydliad am y cyfnod o 22.09.20 tan 20.11.20.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

##### 2. Cyllid

- Ers adroddiad diwethaf y CA mae'r Canghellor wedi penderfynu cynnal Adolygiad Gwariant blwyddyn ar gyfer 2020-21 a disgwylir cyhoeddiadau ar 25 Tachwedd. Mae hyn er mwyn blaenoriaethu'r ymateb i Covid-19, ac mae'n disodli'r CSR 3 blynedd a ragwelwyd yn flaenorol.
- Mae dyfarniadau cyflog ar gyfer swyddogion yr Heddlu a staff yr Heddlu bellach wedi'u cadarnhau, gyda'r ddau yn cael eu cytuno yn unol â thybiaethau cynllunio o 2.5%.
- Mae cynnydd wedi parhau i ddatblygu o ran adennill costau Covid-19. Mae £416k o wariant PPE gradd feddygol wedi'i adennill gyda'r Swyddfa Gartref yn darparu cynllun i adennill gwariant pellach; mae cais am £102k o incwm a gollwyd wedi'i gyflwyno i'r swyddfa gartref a derbyniwyd £309k o gyllid gorfodi fel rhan o swm o £30m a ddarparwyd yn genedlaethol.
- Mae dull lleol Heddlu Gogledd Cymru o ganolbwyntio ar elfennau 'rheoladwy' y cynllunio busnes wedi parhau gydag adolygiadau wedi'u trefnu gyda'r Prif Gwnstabl a'r CHTh ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr yn y drefn honno.
- Mae'r amcanestyniadau refeniw blwyddyn gyfan – fel yr adroddwyd i'r SMB ym mis Tachwedd – bellach yn adlewyrchu lefel gynyddol o danwariant o £1.4m. Hefyd, mae amcanestyniadau cyfalaf yn dangos tanwariant sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol, er y disgwylir i'r rhain fod yn wahaniaethau amseru i raddau helaeth.
- Yn olaf, er da bryd mae'n werth cadarnhau bod Datganiad Cyfrifon 2019-20 wedi'i lofnodi a'i gyhoeddi ddechrau mis Hydref, yn dilyn cyfarfod diwethaf y CA.

##### 3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

- Gyda recriwtio Ymgyrch Uplift Cam 1 wedi'i gwblhau, mae manylion ynghylch dyrannu swyddogion ac ariannu Cam 2 yn dal i aros. Fodd bynnag, mae'r broses cynllunio busnes wedi nodi dros dro lle y gellid cael y gwerth mwyaf o ddyraniad swyddog pellach.
- Cynyddodd absenoldebau staff oherwydd Covid-19 ychydig yn ystod mis Medi a mis Hydref cyn cyflwyno mwy o gyfyngiadau cymdeithasol yng Nghymru.
- I'r perwyl hwnnw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfnod o 17 diwrnod o gyfnod atal byr o 23 Hydref ymlaen a oedd yn effeithio ar arferion sefydliadol mewnol ac allanol yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae'r rhaglen brechu rhag y fflwi – sydd â'r nod o leihau absenoldebau y tu hwnt i Covid-19 yn unig – yn ei chyfnod cyflawni ar hyn o bryd.
- Mae nifer o ffrydiau gwaith trawsnewidiad Digidol Hanfodol yn parhau i symud ymlaen:
  - Mae Hafan Ar-lein Unigol wedi'i lansio gyda'r gyfran gyntaf o wasanaethau'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd mis Hydref 20 gydag amrywiaeth o wasanaethau pellach yn cael eu lansio dros gyfnod o 6 wythnos.

- Disgwylir cynigion cychwynnol y rhaglen Gorchymyn a Rheoli ym mis Rhagfyr 20.
  - Mae NEP bellach yn ei gyfnod peilot Technegol. Yn amodol ar ei gwblhau'n llwyddiannus, bydd yn symud i'r cyfnod peilot Busnes ym mis Rhagfyr 20.
  - Yn debyg i'r dull o reoli, mae ESN bellach wedi sefydlu strwythur grŵp Aur o fewn HGC. Bydd Prif Uwcharolygydd Anderson yn Bennaeth Aur ar gyfer y rhaglen gyda'r CCA yn gweithredu fel arweinydd Strategol yr heddlu.
- Mae opsiynau'r strategaeth Cyrchu TGCh wedi'u datblygu a disgwylir i'r dewis terfynol gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 20.
  - Cadeiriwyd Bwrdd Rheoli cyntaf FCIN – gyda chynrychiolwyr yn rhychwantu nifer o ranbarthau a heddluoedd a oedd yn bresennol – gan PGC Hatchett ym mis Tachwedd 20 gyda'r adran 22 yn sail i'r ardal, gan symud ymlaen.
  - Mae nifer o feysydd yn parhau i ddatblygu o ran cydweithrediad Cenedlaethol; Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr a Chymru Gyfan.

#### 4. Gweithredol

- Yn dilyn nifer o gyfyngiadau lleol sy'n cael eu cyflwyno ledled Cymru – rhai yn effeithio ar siroedd Gogledd Cymru – cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfnod o 17 diwrnod o gyfnod atal byr o 23 Hydref ymlaen.
- O ganlyniad mae Plismona mewn Amgylchedd Covid wedi parhau'n ddeinamig gyda newidiadau rheoleiddiol yn parhau i gael eu hadolygu a'u gweithredu mewn amser real. Yn lleol fodd bynnag mae'r pwyslais wedi dilyn canllawiau CCPSH ac wedi parhau i gymhwyso'r canlynol: Ymgysylltu, Egluro, Annog ac, os oes angen, Gorfodi.
- Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU am gyllid gorfodi o £30m wedi arwain at ddatblygu cynlluniau cyfatebol ymhellach fel rhan o strategaeth Covid-19 HGC . Cyflawnwyd presenoldeb ac amlygrwydd swyddogion ychwanegol drwy ddefnyddio goramser ac adnoddau swyddogion arbennig yn dactegol. Dyraniad penodol HGC o gyllid yw £309k.
- Mae'n ymddangos bod patrymau galw yn ystod y cyfnod cloi wedi dilyn patrwm tebyg i'r cyfyngiadau symud cyntaf gyda galwadau nad ydynt yn rhai brys, sgyrsiau we a negeseuon e-bost wedi cynyddu ond galwadau brys yn lleihau a pob un yn cael eu hadrodd yn y SMB ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, mae penwythnosau drwy gydol mis Tachwedd wedi profi galw mawr mewn troseddau difrifol. Yn ogystal â hyn, mae mis Hydref a mis Tachwedd wedi gweld cryn dipyn o arestiadau a remandio rhagweithiol ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.
- Ers cyfnod adrodd diwethaf y CA, mae gweithgarwch lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi cynyddu mewn perthynas ag gyfnod pontio'r UE gyda'r dasg o fewn yr Heddlu yn cael ei chydgyssylltu drwy grŵp Aur o dan awdurdod PGC DD Harrison.

#### 5. Cyhoeddus / Cymunedol

- Mae ail-gyflwyno cyfyngiadau sifil tynnach ledled Cymru wedi arwain at gynnydd mewn digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys sy'n gysylltiedig â Covid gan y cyhoedd.
- Dangosodd adolygiad gan yr Uned Amrywiaeth a gynhaliwyd – yr adroddwyd arno yn SMB mis Tachwedd – gynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn troseddau casineb gyda thensiynau cymunedol. Nodwyd bod Covid-19 a mwy o sylw yn y cyfryngau yn ymwneud â bywydau pobl dduon yn ffactorau a gyfrannodd.
- Mae arolwg ar y gweill ar hyn o bryd, o ran teimladau cymunedol mewn perthynas ag ymateb HGC i Covid gyda chanlyniadau'n dal i ddod ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.
- Bydd swyddfa'r Comisiynydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â lefelau praesept arfaethedig ar gyfer 2021-22 gyda chanlyniadau'r arolwg i'w derbyn ym mis Rhagfyr.

#### 6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.



## Cydbwyllgor Archwilio


**Dyddiad y Cyfarfod: 10 Rhagfyr 2020**

<b>Teitl:</b>	Uned Cynllunio Strategol
<b>Awdur:</b>	Prif Arolygydd David Cust
<b>Diben yr adroddiad:</b>	Diweddariad Gwybodaeth
<b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b>	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth
<b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>	<p><u>HMICFRS</u></p> <p>Mae AHM newydd ddarparu adolygiad o'r heddlu ar thema trais rhywiol. Roedd yn arolwg ar y cyd gyda GEG a 6 arolygydd. Cynhaliwyd hwn o bell gan ddefnyddio gliniaduron Heddlu Gogledd Cymru tu allan i'r heddlu. Edrychodd AHM ar nifer o ffeiliau achos lle cawsant eu cwblhau gyda chanlyniad 14/15/16/18, dim gweithredu pellach, gan siarad â swyddogion, staff GEG, a chynrychiolwyr ISVA.</p> <p>Roedd yr ôl-drafodaeth boeth gyda'r Arolygyddion yn gadarnhaol gydag adolygiad canmoliaethus am y berthynas rhwng GEG a'r Heddlu. Roedd ymdeimlad o gefnogaeth a dealltwriaeth gan uwch swyddogion o'r heriau a llwythi gwaith yr ymchwilydd sy'n Dditectif Gwnstabiolaidd a Ditectif Ringylliaid (a adlewyrchir yn y sgysiau gydag aelodau o'r Tîm Amethyst). Ystyriwyd hyn fel 'unigryw o dda' o'u harsylwadau ar heddluoedd eraill.</p> <p>Ystyriwyd y mwyafrif o achosion Dim Gweithredu Pellach yn briodol. Defnyddiwyd SOLO/STO yn dda er mwyn hwyluso archwiliadau meddygol ac ABEs – a wnaed yn sydyn. Gwnaeth y mwyafrif o achosion ddangos gwneud penderfyniadau cadarn a rhesymeg wedi'i chofnodi'n dda.</p> <p>Amlygwyd rhai meysydd i'w datblygu hefyd. Nodwyd fod diffyg achosion a gyflwynwyd am gyngor cynnar gan GEG. Tra cydnabuwyd gan yr heddlu a GEG, nid oedd yn amlwg a oedd strategaeth am symud ymlaen yn y maes hwn. Nodwyd hefyd fod oedi sylweddol ym mhenderfyniadau GEG.</p> <p>Mae AHM bellach wedi dychwelyd i rolau arferol. Mae trefniadau mewn lle gyda'n FLL i wirio ein cynnydd o ran AFI ac argymhellion. Rydym yn gwneud cynnydd da ac felly nid oes gennym ddim i'w adrodd drwy eithriad. Pan all ein FLL dychwelyd i'r heddlu rydym yn hyderus y gwnânt gymeradwyo'r argymhellion a'r AFI. Yn y meysydd lle nad ydym yn gofyn am gymeradwyaeth, rydym yn fodlon gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud.</p> <p><u>Cynllunio Strategol</u></p> <p>Ym mis Mehefin 2020 gwnaeth yr heddlu ddechrau proses a fyddai'n hysbysu a bodloni gofynion o osod cyllideb gytbwys a chreu Datganiad Rheoli'r Heddlu ar gyfer HMICFRS.</p> <p>Amcanion y broses oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynorthwyo cynlluniau adfer wedi COVID-19;</li><li>• Rhoi'r sylfaen i'n dyhead sefydliadol i gyflawni'r weledigaeth a chymhelliad i barhau i wella wrth i ni anelu tuag at hyn;</li><li>• Sicrhau fod y sefydliad yn nodi effeithlonrwydd;</li></ul>



	<ul style="list-style-type: none"><li>• Nodi opsiynau ar gyfer arbedion er mwyn caniatáu ailddyrranu adnoddau i fodloni bylchau a nodir drwy Ddatganiad Rheoli'r Heddlu;</li><li>• Sicrhau yr ystyrir angen cymorth swyddfa wrth gefn i gyflawni rhagoriaeth weithredol.</li></ul> <p>Gwnaeth bob maes Gwasanaeth greu Cynllun Busnes, sef eu dealltwriaeth ar sail tystiolaeth o alw yn y dyfodol, gallu eu pobl ac asedau eraill i fodloni'r galw hwn, eu hasesiad o lesiant staff, ymdrechion i nodi effeithlonrwydd a chyfleoedd am fuddsoddiad yn y dyfodol. Cafodd yr holl feysydd Gwasanaeth gyfres o dargedau arbedion er mwyn eu galluogi i ddisgrifio ystod o opsiynau gan gynnwys unrhyw effaith negyddol ar lefelau gwasanaeth presennol. Gallai'r heddlu wedyn gymryd ymdriniaeth gytbwys er mwyn penderfynu lle i osod y swyddogion Ymgyrch Uplift a lle i ailddyrranu cronfeydd blaenoriaeth is er mwyn rheoli galw sy'n flaenoriaeth uwch.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r holl opsiynau arbedion a chyfleoedd twf wedi derbyn asesiad risg gan arweinwyr gwasanaeth. Caiff y rhain eu cymedroli gan y Prif Swyddogion dros nifer o ddyddiau cynllunio cyn cyflwynir pecyn manwl terfynol pan Osodir y Gyllideb ar 27 Tachwedd. Mae llawer o ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch ffrydiau ariannu. Fodd bynnag mae'r heddlu mewn lle da i ymateb at amrywiadau yn ein tybiaethau gan ei fod wedi dechrau'r broses hon yn gynnar.</p>
<b>Argymhellion:</b>	Amherthnasol
<b>Effaith cofrestr risgiau:</b>	Amherthnasol
<b>Goblygiadau sicrwydd:</b>	Amherthnasol
<b>Effaith Cydraddoldeb:</b>	Amherthnasol
<b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>	





**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

### ADRODDIAD RHEOLI MEWNOL – 10 Rhagfyr 2020

#### ADRODDIAD COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL GOGLEDD CYMRU

##### 1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar Weithgarwch Rheoli Mewnol ers y Cydbwyllgor Archwilio diwethaf. Mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ac a gofnodwyd erbyn 13 Tachwedd 2020.


Disgwylir fod gweithgarwch pellach wedi digwydd erbyn cyfarfod mis Rhagfyr o'r CA ei hun, a bydd diweddariad ar lafar ar sail eithriadol yn y cyfarfod.

Dylai'r adroddiad gael ei ddarllen ar y cyd gyda'r papurau TIAA a gyflwynwyd i'r CA ar gyfer y cyfarfod. Mae'n crynhoi'n benodol y gweithgarwch Rheoli Mewnol allweddol o ran:

- Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol
- Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid Diweddar (CBN) a Rhybuddion Twyll
- Archwiliadau TIAA yn y cyfnod
- Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll wedi'u rhannu yn y cyfnod
- Statws presennol Cynllun Archwilio Mewnol 2020-21

##### 2. STATWS ARGYMHELLIAD ARCHWILIADAU TIAA

Amlinellir y sefyllfa ar argymhellion Archwilio Mewnol 2020/2021 ar 13 Tachwedd 2020 isod:



Symudiad ers cyfarfod diwethaf y CA:

Derbyniwyd 3 argymhelliad nodedig newydd.

Gweithredwyd 1 argymhelliad nodedig.

Ni ystyriwyd 1 argymhelliad nodedig yn briodol bellach.

ID	Gwasanaeth	Swydd	Blwyddyn	Maes Risg	Sylw
247346	Archwilio Mewnol	Datblygu Sefydliadol 20/21	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Derbyniwyd adroddiad Archwiliad 06/11/2020
247494	Archwilio Mewnol	Gwrth Dwyll 20/21 – Caffael Atal Twyll	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Derbyniwyd adroddiad Archwiliad 13/11/2020
247498	Archwilio Mewnol	Treuliau a thaliadau ychwanegol 20/21	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Derbyniwyd adroddiad Archwiliad 11/11/2020
241633	Archwilio Mewnol	Rheolwyr AD – Strategaeth Lesiant	2019	Risg Gweithredol	Gweithredwyd ar 13/11/2020
236367	Archwiliad TGCh	TGCh – Diogelwch y Rhwydwaith Rhif PO FN27625	2018	Risg Cydymffurfiaeth	Symudwyd i NLA 13/11/20; lliniaru risgiau mewn lle.

Amlinellir dadansoddiad o'r 23 argymhelliad a weithredwyd ar 13 Tachwedd 2020 isod:

Crynodeb Statws – Gweithredwyd	Categori	Rhif
Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus gwreiddiol	Cat 1	17
Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus diwygiedig 1af	Cat 2	0
Gweithredwyd ar neu cyn yr 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	Cat 3	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 4	1
Gweithredwyd ar neu cyn y 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 5	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 6	1
Gweithredwyd ar ôl y dyddiad dyledus gwreiddiol a/neu ddiwygiedig	Cat 7	4
		<b>23</b>

Amlinellir dadansoddiad o'r 9 argymhelliad nodedig ar 13 Tachwedd 2020 isod:

Crynodeb Statws – Argymhellion Nodedig	Categori	Nag oes
Nifer yr Argymhellion – dal ar y dyddiad dyledus gwreiddiol	Cat 1	4
Nifer yr Argymhellion – dyddiad dyledus diwygiedig 1af	Cat 2	3
Nifer yr Argymhellion – 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	Cat 3	1
Nifer yr Argymhellion – 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 4	0
Nifer yr Argymhellion – 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 5	0
Nifer yr Argymhellion – 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 6	1
Nifer Argymhellion – Hwyr	Cat 7	0
		<b>9</b>

Ceir y sefyllfa ddiweddaraf a diweddariad o ran yr 9 argymhelliad nodedig yn Atodiad 1.

### 3. YMATEB RHEOLWYR O RAN NODIADAU BRIFFIO CLEIENTIAID (CBNs) a RHYBUDDION TWYLL

Mae CBNs a Rhybuddion Twyll yn cael eu hadrodd a'u monitro bellach drwy UDRh C&A gyda'r Bwrdd Cyd Lywodraeth yn rhoi trosolwg pellach.

Mae CBNs sy'n dyddio nôl i fis Medi 2019 wedi cael eu crynhoi ar atodlen unigol ac yn Fael eu rhannu gydag aelodau'r CA yn gyfnodol. Ers mis Ebrill 2020 mae TIAA hefyd wedi rhyddhau Rhybuddion Twyll.

Dangosir y statws presennol ar CBNs a Rhybuddion Twyll isod:

Math	Dim cofnod	Angen Gweithredu	Y Sesiwn Penderfyniadau
CBNs – 19016 i 20029	27	0	0
Rhybuddion Twyll	10	0	0

### 4. ARCHWILIADAU AC ADRODDIADAU TIAA A GYHOEDDWDYD YN Y CYFNOD

Mae'r adroddiad canlynol wedi cael eu cyhoeddi gan TIAA ers cyfarfod mis Hydref 2020 o'r CA. Mae'r holl adroddiadau wedi cael eu rhannu'n llawn gydag aelodau'r CA.






System	Math	Chwarter Arfaethedig	Dyddiau	Chwarter Diwygiedig	Statws Cyfredol	Lefel Sicrwydd	Sylw
Cyfriflyfr Cyffredinol	Sicrwydd	Chwarter 3	6		Cyhoeddi Adroddiad Terfynol	Sylweddol	Ni wnaed argymhellion.
Pensiynau	Sicrwydd	Chwarter 2	8		Cyhoeddi Adroddiad Terfynol	Sylweddol	Ni wnaed argymhellion.
Rheolwyr AD/Gweithlu – Datblygiad Sefydliadol	Sicrwydd	Chwarter 1	7	Chwarter 2	Cyhoeddi Adroddiad Terfynol	Sylweddol	Gwnaed argymhelliad 1
Ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cefnogaeth wrth inni foderneiddio ein gwaith, gyda'r nod o sicrhau manteision i Archwilio Cymru a hefyd i'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio.

Yn ein byd cynyddol ddigidol, mae data'n dod yn alluogwr hynod bwysig i ni, fel y mae i bob sefydliad. Fel y cyfryw, mae gennym uchelgais feiddgar i drawsnewid y ffordd yr ydym yn defnyddio data.

Mae ein tîm Dadansoddi Data wedi dechrau gwneud cynnydd gwirioneddol, gan gynnwys:

- Cyhoeddi Offeryn Data rhyngweithiol fel math newydd o gynnyrch o'n harchwiliadau. Mae'r offer data hyn yn ychwanegu gwerth at ein gwaith drwy wneud gwell defnydd o'r data yr ydym wedi ei gasglu a thrwy gynhyrchu dadansoddiad mwy craff i'r cyhoedd, gwleidyddion, y wasg a chyrrff cyhoeddus ei archwilio.
- Creu apiau pwrpasol i awtomeiddio agweddau ar ein gwaith. Mae i'r apiau hyn gryn botensial i symleiddio ein gwaith, gan greu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer Archwilio Cymru ond hefyd i'r cyrff a archwilir gennym, yn bennaf drwy ddileu'r gwaith sy'n ailadroddus ac yn llyncu amser, sy'n gysylltiedig â chasglu a throsglwyddo data.
- Mae gan y tîm orchwyl benodol o gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau 'dangos a dweud' gyda chyrrff eraill, i siarad am ein dulliau newydd a rhannu'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu hyd yma. Yr ydym hefyd wedi rhannu deunyddiau hyfforddi y buom yn eu defnyddio i uwchsgilio ein tîm dadansoddi data. Cysylltwch â'r tîm yn [data.analytics@audit.cymru](mailto:data.analytics@audit.cymru) os oes arnoch eisiau gwybod mwy.

Rwyf wrth fy modd gyda'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni hyd yma ond mae modd inni wneud cymaint mwy, fel y nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Y cam allweddol nesaf i ni yw sicrhau bod data yn cael ei lawrlwytho'n rheolaidd o brif systemau ariannol y cyrff a archwilir gennym. Dyna pam yr wyf yn ysgrifennu atoch. Yn hanesyddol, bu ein ceisiadau am ddata yn rai ad hoc, ac roeddent yn dibynnu ar y maes profi oedd yn cael ei gynnal gan yr archwilydd. Gall hyn fod yn feichus i'ch swyddogion chi, ac yn aneffeithlon i'm timau archwilio innau. Yn lle hynny, rydym yn awr yn gobeithio gofyn am gael lawrlwytho data fel mater o arferiad, a dyma fanylion penodol yr hyn yr wyf yn gofyn amdano:

- I ddechrau, byddwn yn gofyn am gael lawrlwytho'n llawn y data yn eich llyfr cyfrifon cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 i ddibenion cymharu. Byddwn wedyn yn gofyn am gael lawrlwytho data o'ch llyfr cyfrifon cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 ar y cam archwilio interim a'r cam archwilio terfynol. Yn y blynyddoedd i ddod, efallai y byddwn yn gofyn am y data hwn bob chwarter neu hyd yn oed bob mis. Byddwn hefyd yn symud ymlaen i ofyn am ddata o systemau ariannol allweddol eraill megis y gyflogres ac asedau sefydlog.
- Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyfleu eich cefnogaeth mewn egwyddor i'ch Cyfarwyddwyr Cyllid a Phenaeithiaid TG, yr ydym yn debygol o siarad â hwy'n uniongyrchol ynglŷn â chael mynediad at ddata eich sefydliad.
- Rydym wedi buddsoddi mewn Datrysiad Storio Dadansoddiadau Data sy'n seiliedig ar weithleoedd *Amazon Web Services*, fydd yn sylfaen i'n holl waith yn y dyfodol ar ddadansoddi data. Bydd yr amgylchedd diogel a saff hwn yn ein galluogi i storio a gweithio gyda setiau mawr o ddata yn ogystal â data sensitif. Byddwn yn gweithio gyda chi i benderfynu ar y ffordd orau o drosglwyddo eich data i ni, a all fod drwy ddefnyddio *Objective Connect* (porth trosglwyddo ar-lein) neu o bosibl drwy drydydd parti arbenigol (a all gysylltu'n uniongyrchol â'ch system ariannol).

Yn y tymor canol, gobeithiwn y bydd y dull newydd hwn yn arbed amser ac ymdrech i bawb drwy ddileu bron yn llwyr y broses bresennol o ofyn am ddata, sydd weithiau'n hirfaith ac yn ailadroddus. Ond yn fwy na hynny, bydd llwytho'r data hwn i lawr yn rheolaidd yn gam mawr ymlaen tuag at ddull archwilio o safon uwch, fydd yn seiliedig ar sylfaen sylweddol fwy o dystiolaeth, ac a fydd yn creu mwy o sicrwydd a mewnwleidiad ar gyfer sefydliadau fel eich un chi.

Rwyf yn hynod gyffrous ynghylch y dyfodol i ddadansoddi data yn Archwilio Cymru ac felly byddwn yn fwy na pharod i siarad â chi'n uniongyrchol ynglŷn â hyn pe baech yn dymuno gwneud hynny. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth ac mae croeso i chi gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Atodiad: Manylion ein gweledigaeth ar gyfer dadansoddi data yn y dyfodol

Mae ein Gweledigaeth Hirdymor ar gyfer dadansoddi data yn gosod cynllun sy'n fwriadol uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- Ffrydiau o ddata byw gan gyrff cyhoeddus fydd yn ein galluogi i ddadansoddi perfformiad a risgiau mewn amser real.
- Defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i lanhau data'n awtomatig a thynnu sylw at faterion risg uchel i'w hystyried ymhellach gan archwilwyr.
- Cysylltu a chydweddu data'n awtomatig i ganfod twyll ac anghysondebau.
- Symudiad tuag at ddadansoddi rhagfynegol, i'n cynorthwyo i edrych fwy i'r dyfodol wrth wneud ein sylwadau a'n hargymhellion.

Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn anodd a bydd yn cymryd amser ond mae'n hanfodol ein bod yn gwthio ein hunain.

Un o ymrwymadau allweddol newid yn fy Nghynllun Blynyddol 2020-21 yw gwella'r ffordd yr ydym "yn dod o hyd i ffynonellau, yn caffael ac yn dadansoddi data". Rydym yn benderfynol o wneud i hyn arwain at welliannau pellach yn ansawdd ac effeithlonrwydd ein gwaith, a'n galluogi i ddarparu dadansoddiad cynharach a mwy craff i sefydliadau fel eich un chi.

Un o'n prosiectau pwysicaf yw Archwilio gyda Chymorth Dadansoddeg. Ymgais yw hyn i wneud data yn ganolog i'n gwaith cyfrifon. Mae pedwar cam sy'n sail i'r prosiect hwn:

- **Llyncu data.** Dyma'r cam mwyaf anodd. Mae angen i ni allu trosglwyddo / llyncu data'n effeithlon ac yn ddiogel oddi wrth gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gan gyrff cyhoeddus systemau gwahanol. Er enghraifft, mae cyrff cyhoeddus Cymru yn defnyddio dros 15 o systemau llyfr cyfrifon ariannol gwahanol heb gyfrif y rhai a ddefnyddir i gefnogi Adnoddau Dynol, y gyflogres, asedau, ysgolion, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol ac yn y blaen.
- **Prosesu** Unwaith y bydd y data gennym, bydd angen inni ei brosesu i fformat y gall ein cymwysiaid ei ddarllen yn hawdd tra'n sicrhau ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn ein galluogi i atgynhyrchu'r cydbwysedd prawf o ddata'r ffynhonnell, ei gysoni â'r cyfrifon a'r adolygiad dadansoddi awtomataidd. Bydd data ar gael i archwilwyr ar flaenau eu bysedd, gan eu galluogi i ddrilio i lawr at ddata lefel y trafodion.
- **Profi.** Rydym wedi datblygu cymwysiaid i gynnal profion archwilio allweddol, gan ryddhau ein harchwilwyr i werthuso'r canlyniadau a dangos tystiolaeth dros eu barn. Mae enghreifftiau'n cynnwys trafodion asesu risg,

dewis samplau archwilio, cysylltu â ffynonellau data allanol i ddilysu trafodion a balansau'n annibynnol (e.e. Y Gofrestrfa Tir, Tŷ'r Cwmnïau).

- **Delweddu.** Bydd delweddu canlyniadau'r dadansoddiad data yn paratoi'r ffordd ar gyfer adroddiadau rhyngweithiol, mwy effeithiol ar ein gwaith archwilio, y gallwn eu rhannu â'n cyrff archwiliedig.

Bydd y data y byddwn yn gofyn am gael ei lawrlwytho o'ch systemau ariannol yn cael ei ddefnyddio'n bennaf o fewn ein dull Archwilio gyda Chymorth Dadansoddeg. Ein gobaith yw y bydd y dull hwn yn arwain at archwiliadau mwy effeithlon, sydd â sail dystiolaeth fwy cynhwysfawr, fydd yn ein galluogi i greu mewnwelediad newydd a gwerth ychwanegol i'r cyrff a archwilir gennym.



### Cydbwyllgor Archwilio

**Dyddiad y Cyfarfod: 10 Rhagfyr 2020**

<b>Teitl:</b>	Adroddiad Cyfreithiol
<b>Awdur:</b>	Phil Kenyon                      Cyfreithiwr yr Heddlu
<b>Diben yr adroddiad:</b>	Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio o weithgaredd cyfreithiol o fewn yr Heddlu.  Mae'r eitem agenda yn cwmpasu Crynodeb Gweithredol 2 dudalen sy'n atgyfnerthu'r wybodaeth sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
<b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b>	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd  <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
<b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>	Mae'r adroddiad yn crynhoi gweithgarwch cyfreithiol allweddol yn ymwneud ag: <ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddiad ar weithgarwch hawliadau sifil y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros y 6 mis blaenorol. (Ar agor)</li><li>• Adroddiad ar weithgarwch Cytundeb a Chaffael ar gyfer y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd am y 6 mis blaenorol a'r wers a ddysgwyd o hawliadau sifil yn ystod y 6 mis blaenorol</li></ul> Darperir crynodeb Gweithredol 2 dudalen ynghyd â'r adroddiad 12 tudalen hawliadau Sifil (Ar agor) a'r adroddiad gwersi a ddysgwyd ar Gontractau, Caffael a Hawliadau Sifil 8 tudalen (Wedi cau)
<b>Argymhellion:</b>	Adolygu'r adroddiadau amgaeedig a nodi unrhyw feysydd y mae angen craffu arnynt ymhellach.
<b>Effaith Cofrestr Risgiau:</b>	Dim.
<b>Goblygiadau Sicrwydd:</b>	Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol yn rhoi Sicrwydd ym maes cydymffurfio â Chytundeb a Chaffael.
<b>Effaith Cydraddoldeb:</b>	Dim
<b>Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:</b>	Rhennir y wybodaeth yn 2 adroddiad. Mae un ar gau a'r llall ar agor

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

## **Hawliadau Sifil ac achosion Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2020**

Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu, Sarah Hughes, yn ymdrin â'r holl hawliadau sifil Atebolrwydd y Cyhoedd ac Atebolrwydd Cyflogwyr a gyhoeddwyd yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru.

### **CYFLWYNIAD**

Diben yr adroddiad hwn yw:

- 1) darparu manylion am nifer yr hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd ac Atebolrwydd Cyflogwyr a wnaed yn erbyn yr Heddlu ym mhob blwyddyn ariannol.
- 2) rhoi barn am unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 3) darparu manylion yr arian a dalwyd mewn setliad ym mhob blwyddyn ariannol.

### **CEFNDIR**

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPR) yn berthnasol wrth gynnal achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. O dan y Protocol Cyn Gweithredu a nodir yn y Rheolau, mae'n ofynnol i unrhyw ddarpar hawliwr gyflwyno llythyr hawlio ar Heddlu Gogledd Cymru fel ymatebydd sy'n nodi ei hawliad yn llawn. Yn unol â hynny, mae'r holl hawliadau a dderbynnir gan Heddlu Gogledd Cymru fel arfer yn cynnwys llythyr o hawliad yn honni categorïau o niwed ac yn gofyn am iawndal. Mae'n torri'r rheolau gweithdrefnol i weithdrefnau gael eu cyhoeddi y tu allan i reolau'r protocol cyn gweithredu. Serch hynny nid yw'n anghyffredin.

#### **Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr yw'r rhai a dderbynnir gan weithwyr yr Heddlu (swyddogion a staff) ac maent yn cynnwys hawliadau Anafiadau Personol sy'n deillio o golled neu anaf a gafwyd yn ystod dyletswydd neu gyflogaeth.

#### **Hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd**

Hawliadau a gyflwynir gan y cyhoedd yw hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd. Gall hawliadau o'r fath gynnwys honiadau o arestio anghyfreithlon, carchariad ar gam, defnydd anghyfreithlon o rym, difrod i eiddo ac erlyniad maleisus.

#### **Hawliadau Cerbydau**

Ymdrinnir â hawliadau damweiniau cerbydau gan ein hyswirwyr a'r Adran Fflyd. Caiff unrhyw faterion wedi eu hymgyfreithio eu goruchwylio gan Gyfreithiwr yr Heddlu o 1 Mawrth 2013. Adran y Fflyd sy'n cadw data a gedwir mewn perthynas â hawliadau o'r fath.



**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Cydnherthedd yr Adran Gyfreithiol**

**Atebolrwydd Cyflogwyr**

Mae ein Hyswirwyr yn ymdrin â hawliadau o'r fath sy'n cael eu goruchwyllo gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Caiff rhai hawliadau eu contractio allan gan Zurich a Gallagher Bassett os byddant yn cael eu hymgyfreithio. Fodd bynnag, bydd yr Adran Gyfreithiol yn ymdrin â phob digwyddiad sy'n digwydd ar ôl 1 Ebrill 2017 yn fewnol. Cytunwyd ar hyn gan ein hyswirwyr.

**Atebolrwydd y Cyhoedd**

Ymdrinnir â phob hawliad a'i reoli gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Mae lleiafrif o'r hawliadau hyn yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Goruchwylir pob un gan Gyfreithiwr yr Heddlu.

**MANYLION**

O 1 Ebrill – 30 Medi 2020 Derbyniwyd **29** llythyr hawlio yn yr Adran Gyfreithiol roedd **4** yn hawliad Atebolrwydd Cyflogwyr a **25** yn hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd.

Mae'r tabl isod, lle mae wedi'i farcio'n goch, yn dangos cyfanswm nifer yr hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2020. O gyfanswm yr hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y 6 mis diwethaf cyhoeddwyd achos mewn perthynas â **2** o'r hawliadau hyn.

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**CYFANSWM NIFER YMGEISWYR**

Blwyddyn	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd y Cyhoedd	Cyfanswm
2014/2015	3	40	43
2015/2016	6	33	39
2016/2017	3	50	53
2017/2018	5	52	57
2018/2019	5	49	54
2019/2020	7	41	48
2020/2021	4	25	29

**Manylion hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd a dderbyniwyd yn ystod**

**1 Ebrill – 30 Medi 2020 yn dilyn cwyn**

Hawliadau a dderbyniwyd yn dilyn cwyn	Canlyniadau cwynion	Canlyniadau Hawliad Sifil
5	1 cwyn yn parhau 4 cwyn heb eu cadarnhau	3 hawliad yn dal i gael eu hymchwilio 1 hawliad wedi'i amddiffyn 1 cais am ddogfennau ychwanegol

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU BYW**

Ar hyn o bryd mae 55 o hawliadau byw parhaus yn cael eu trin yn yr Adran Gyfreithiol. Rhaid nodi y gallai digwyddiadau fod wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hawliadau 'gweithredol' a osodwyd yn erbyn blwyddyn wirioneddol y digwyddiad. (Hawliad sy'n parhau'n fyw yw hawliad gweithredol ac nad yw wedi'i benderfynu eto).

Blwyddyn y Digwyddiad	Atebolrwydd Cyflogwyr	Atebolrwydd y Cyhoedd
1982/1983	0	1
1994/1995	0	1
1999/2000	0	1
2012/2013	0	1
2013/2014	1	2
2014/2015	1	1
2015/2016	0	2
2016/2017	0	4
2017/2018	1	3
2018/2019	0	7
2019/2020	5	16
2020/2021	2	6
<b>CYFANSWM</b>	<b>10</b>	<b>45</b>
<b>CYFANSWM NIFER Y CYFLOGWYR BYW A HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS:</b>		<b>55</b>

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Y SEFYLLFA BRESENNOL O RAN HAWLIADAU SIFIL BYW**

	<b>Atebolrwydd Cyflogwyr</b>	<b>Atebolrwydd y Cyhoedd</b>
<b>Trafodion a gyhoeddwyd</b>	1	11
<b>Hawliadau wedi'u gwrthbrofi'n llwyddiannus ond heb eu cau eto</b>	4	8
<b>Hawliadau heb eu datrys eto</b>	3	22
<b>Hawliadau'n dal i gael eu hymchwilio/cwynion yn parhau</b>	3	15

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYFLOGWYR**

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

<b>Math o Hawliad a Dderbyniwyd</b>	<b>15/16</b>	<b>16/17</b>	<b>17/18</b>	<b>18/19</b>	<b>19/20</b>	<b>20/21</b>
Lithro, baglu a disgyn	2	3	1	2	5	3
Straen/Bwlio	0	0	0	0	0	0
RSI	0	0	0	0	0	0
Colli clyw	0	0	0	0	0	0
Anaf ar gwrs hyfforddi	4	0	1	3	0	0
Arall	2	3	2	0	2	1
Anafiadau i fysedd/dwylo	0	0	1	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>6</b>	<b>5</b>	<b>5</b>	<b>7</b>	<b>4</b>

**Sylwadau**

Y math mwyaf cyffredin o hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd uchod oedd achosion o lithro, baglu a disgyn.

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS**


Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o niwed a hawliwyd amlaf mewn hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Efallai y bydd un neu fwy o gategorïau difrod mewn un hawliad felly nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer yr hawliadau a dderbynnir fel yn Nhabl 1 (blaenorol).

<b>Math o Hawliad a Dderbyniwyd</b>	<b>15/16</b>	<b>16/17</b>	<b>17/18</b>	<b>18/19</b>	<b>19/20</b>	<b>20/21</b>
Ymosod a churo	5	11	5	4	3	5
Colled Ganlyniadol	3	1	3	0	2	1
Carcharu ar Gam	10	18	8	14	11	7
Erlyniad Maleisus	2	5	2	0	1	1
Esgeulustod	4	4	4	6	11	3
Arall	15	24	23	13	12	10
Difrod/atafaeliad Eiddo	9	17	21	24	18	7
Tresmasu ar Berson	0	0	3	2	2	2
Tresmasu ar Eiddo	3	6	1	4	2	2
Arestio Anghyfreithlon	8	11	4	2	6	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>59</b>	<b>97</b>	<b>74</b>	<b>69</b>	<b>68</b>	<b>43</b>


**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Iawndal a ddyfarnwyd i Hawlwyr rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020**

**Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr**



**Hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd**



**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Costau a dalwyd i Gyfreithwyr Hawlwyr mewn perthynas â hawliadau sefydlog rhwng 1 Ebrill - 30 Medi 2020**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd
£14,247.00	£81,500.00

**Costau cyfreithiol Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â hawliadau sifil sefydlog a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd
£0.00	£28,957.50

**Taliadau CRU a GIG**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr	Hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd
£0.00	£0.00



**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Dadansoddiad o'r hawliadau a setlwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020**

<b>Categori</b>	<b>Hawliad</b>	<b>Niferoedd o hawliadau a setlwyd</b>
Atebolwydd Cyflogwyr	Anaf personol	1

<b>Categori</b>	<b>Hawliad</b>	<b>Niferoedd o hawliadau a setlwyd</b>
Atebolwydd y Cyhoedd	Carcharu ar Gam	1
Atebolwydd y Cyhoedd	Ymosod	1
Atebolwydd y Cyhoedd	Esgeulustod	2
Atebolwydd y Cyhoedd	Torri'r Ddeddf Hawliau Dynol	5

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU SIFIL A GAEWYD**

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am nifer yr hawliadau sydd wedi'u 'cau' ers 2015. Mae'r tabl yn rhoi manylion hawliadau a setlwyd a lle nad oes setliad wedi'i dalu ynghyd â'r cyfanswm ar gyfer pob blwyddyn.

1 Ebrill - 31 Mawrth	Hawliadau wedi eu cytuno arnynt	Ni thalwyd unrhyw setliadau	Cyfanswm ar gau
2015/2016	13	40	53
2016/2017	10	24	34
2017/2018	20	42	62
2018/2019	15	53	68
2019/2020	16	39	55
2020/2021	10	18	28

Fel y gwelwch, mae nifer yr hawliadau sy'n cael eu "gwrthbrofi" lle nad oes arian wedi'i dalu fel arfer yn fwy na'r rhai lle mae arian wedi'i dalu. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu safbwynt cadarn yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas ag amddiffyn hawliadau sifil yn gyffredinol.

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Nifer yr Hawliadau Sifil ar contract allanol**

**Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd</b>	<b>Nifer yr Hawliadau sydd wedi'u Contractio Allan</b>
2015/2016	8	1
2016/2017	6	1
2017/2018	5	0
2018/2019	5	0
2019/2020	7	0
2020/2021	4	0

**Hawliadau Atebolrwydd y Cyhoedd**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd</b>	<b>Nifer yr Hawliadau sydd wedi'u Contractio Allan</b>
2015/2016	33	3
2016/2017	50	0
2017/2018	52	2
2018/2019	49	0
2019/2020	41	0
2020/2021	25	0

**DOGFEN CYFRAITH A CHAFFAEL  
CYD BWYLLGOR ARCHWILIO  
SESIWN AGORED**

**Materion Cyflogaeth**

**Manylion Hawliadau Cyflogaeth Fyw**

<b>Wedi derbyn</b>	<b>Manylion Hawliadau Byw</b>
2015/2016	95 x Gwahaniaethu ar sail Oedran (Pensiwn)  Ymdrinnir â'r hawliadau hyn yn genedlaethol a rhagwelir y bydd y Swyddfa Gartref yn diwygio'r Rheoliadau i ddileu'r gwahaniaethu.
2018/2019	1 x Gwahaniaethu ar sail Hil Cyfredol.
2019/2020	1 Gwahaniaethu ac Erledigaeth Rhyw Anuniongyrchol Cyfredol.
2019/2020	1 x Erledigaeth, Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac Aflonyddu Cyfredol.
2020/2021	1 x Gwahaniaethu ar sail anabledd Cyfredol.



HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE

Pwyllgor Moeseg Heddlu Gogledd Cymru

[Kerrie.Ambrose@nthwales.pnn.police.uk](mailto:Kerrie.Ambrose@nthwales.pnn.police.uk)

[Greg.george@nthwales.pnn.police.uk](mailto:Greg.george@nthwales.pnn.police.uk)




**HEDDLU**  
**GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES**  
**POLICE**

- Y ffordd mae'r Pwyllgor Moeseg yn gweithio ar hyn o bryd
- Cysylltiad â Moeseg Rhanbarthol a Chenedlaethol
- Cadeirydd Allanol Newydd i gymryd lle K. Ambrose
- Y Ffordd Ymlaen



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

# Llif proses Dilemâu Moeseg Presennol






**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

## Cysylltiad Cenedlaethol a Rhanbarthol

- Mae Bwrdd Pwyllgor Moeseg lleol yn cyfarfod yn chwarterol
- Trafodaethau Moesegol cenedlaethol wedi'u cyflwyno i heddluoedd rhanbarthol a lleol fel sy'n briodol
- Lleol yn trosglwyddo i Ranbarthol fel sy'n ofynnol
- K Ambrose a G George yn mynychu Moeseg Rhanbarthol yn chwarterol.







HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE

## Bwrdd Moeseg HGC

- Penodi Cadeirydd Annibynnol Newydd yn ddiweddar **Dr Jacquie Don** Darlithydd Chydlynedd Iechyd a Gofal Cwricwlwm AU, Coleg Llandrillo
  - Fetio wedi'i glirio ac mae Dr Don wedi cytuno i gadeirio'r Pwyllgor Moeseg ar 19 Ion 2021
- Mae K. Ambrose, y cadeirydd presennol, wedi bod yn gweithio gyda Dr Don a G George gan adolygu'r ffordd mae'r pwyllgor yn gweithredu ar hyn o bryd ac yn trafod syniadau ar wella.
  - Adnewyddu'r Cylch Gorchwyl a ehangu aelodau allanol o'r pwyllgor



**HEDDLU**  
**GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES**  
**POLICE**

## Mentrau Gwella Parhaus

Gweithio gyda Jacquie i weithredu gwelliannau wrth symud ymlaen

- ❖ Cylch Gorchwyl newydd
- ❖ Cynyddu aelodaeth, cynhwysiant, amrywiaeth a barnau amrywiol tu allan i'r heddlu
- ❖ Canlyniadau gwell
- ❖ Llif prosesu gwell – cau cylch adborth
- ❖ Atebolrwydd cynyddol
- ❖ Cynnwys y pwyllgor mewn gwiriad llywodraethu ar gyfer asesiadau Algorithm/AI yn HGC



**HEDDLU**  
**GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES**  
**POLICE**

## Cwestiynau?



## Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 10/12/2020

<b>Teitl:</b>	Bwrdd Cyd Lywodraethu
<b>Awdur:</b>	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid
<b>Diben yr adroddiad:</b>	Diweddariad
<b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b>	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth
<b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae gweithredu argymhellion yr Adolygiad Llywodraethu yn mynd yn ei flaen, gyda'r byrddau strategol mewn lle.</li><li>• Mae'r byrddau lefel is bellach yn cael eu rhoi ar waith, a rhagwelir y bydd y rhain i gyd yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.</li><li>• Diweddarwyd y rhaglen waith i gynnwys adolygiad o gylch gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio.</li><li>• Trafodwyd y defnydd o daenlen y fframwaith llywodraethu i goladu gwybodaeth i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cytunwyd i ystyried dulliau gwahanol o gasglu'r wybodaeth yma.</li></ul>
<b>Argymhellion:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.</li><li>• Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.</li></ul>
<b>Effaith cofrestr risgiau:</b>	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
<b>Goblygiadau sicrwydd:</b>	Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2019/20.  Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.
<b>Effaith Cydraddoldeb:</b>	Dim
<b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>	Dim



## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

10 Rhagfyr 2020

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd  
Heddlu a Throsedd



### 1. Cefndir

- 1.1. Ffurfiwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn 2014 er mwyn dogfennu trefniadau llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru.
- 1.2. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac mae rhaglen waith wedi'i pharatoi.
- 1.3. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod. Mynychodd un aelod o'r Cydbwyllgor ar 5 Tachwedd 2020.

### 2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.

### 3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020, trafodwyd y canlynol:
  - 3.1.1. Effeithiolrwydd y strwythur llywodraethu newydd
    - Dywedodd Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod yr holl fyrddau lefel strategol bellach mewn lle.
    - Mae'r byrddau lefel is bellach yn cael eu rhoi ar waith, a rhagwelir y bydd y rhain i gyd yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
    - Bydd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes yn darparu gwybodaeth i helpu i baratoi'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol erbyn diwedd mai 2020; bydd adroddiad llawn sy'n asesu'r trefniadau newydd, gan gynnwys effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strwythur llywodraethu, yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn ystod haf 2021.
    - Canolbwyntiodd y drafodaeth ar amseroldeb asesu'r strwythur newydd ac a ellid dwyn hyn ymlaen neu ei

wneud dros dro gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu. Fodd bynnag, canlyniad y drafodaeth honno oedd y byddai'r amserlenni ar gyfer asesu'r strwythur llywodraethu newydd yn parhau yn ystod haf 2021. Fodd bynnag, penderfynwyd y bydd yr adolygiad o effeithiolrwydd y strwythur llywodraethu yn cael ei drafod yng nghyfarfod y gwanwyn o 2022 ymlaen.

- Ni chomisiynwyd na datgomisiynwyd unrhyw gyfarfodydd ers y Bwrdd Cyd Lywodraethu blaenorol

### 3.2.2. Adolygiad o argymhellion yr Archwiliad Mewnol ac Allanol

Nodwyd y bu cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio mewnol ers i'r adroddiad gael ei baratoi. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod gan dynnu sylw at yr argymhellion archwilio sy'n ymwneud â Llywodraethu neu a oedd wedi bod yn destun trafodaeth yng nghyfarfod diweddaraf y Cydbwyllgor Archwilio.

### 3.2.3 Nodiadau Briffio Cleientiaid

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau wrth y Bwrdd fod y system a oedd ar waith yn parhau i weithredu'n dda, gyda'r holl nodiadau briffio cleientiaid yn cael eu hadolygu a bod ymateb gan y rheolwyr yn cael ei gofnodi.

Nid oedd Nodiadau Briffio Cleientiaid heb eu cwblhau ar adeg y cyfarfod.

### 3.2.4 Diweddariad Sicrwydd

Rhoddodd y Pennaeth Gwybodaeth Busnes ddiweddariad sicrwydd.

Mae'r Llyfrgell Bolisi yn cael ei llunio, gyda dogfennau presennol yn cael eu hadolygu i asesu a ddylent fod yn bolisiau neu'n ganllawiau.

Mae hyfforddiant risg yn parhau i gael ei ddatblygu, ac mae'r archwaeth risg wrthi'n cael ei adolygu'n flynyddol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y sefydliad ar y trywydd iawn.

Bydd cynlluniau parhad busnes yn cael eu hadolygu, gan ystyried y dysgu o Covid-19. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth o'r adolygiad gwaith ystwyth ac ymarfer a fyddai'n cael ei gynnal ar 10 Tachwedd 2020.

Nodwyd bod ymarfer Ymadael â'r UE wedi'i gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr 2020.

### 3.2.5 Cod FM CIPFA

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid a dynnodd sylw at y ffaith bod y Cod FM yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd yn y cydestun ehangach, gan fod rhai awdurdodau lleol yn cael anawsterau ariannol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ein bod yn cydymffurfio'n bennaf â'r Cod FM newydd heb nodi unrhyw fylchau mawr. Fodd bynnag, bydd yn rhaid inni allu dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth, a nodi unrhyw feysydd lle gellir gwella.

Nid yw'n glir a fydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar SCHTh a Heddlu Gogledd Cymru i weithredu Cod FM newydd CIPFA o 1 Ebrill 2021 fel y disgwyliad yn wreiddiol, gan nad yw'r deddfwriaeth mewn lle eto (ac nid yw'n glir pryd neu a gaiff deddfwriaeth ei phasio). Er ein bod yn credu nad yw Archwilio Cymru yn debygol o wirio cydymffurfiaeth â'r cod yn ystod archwiliad 2020/21, mae'r cod yn arfer da, a disgwyliar y byddwn yn gallu dangos erbyn 31 Mawrth 2021 ein bod yn gweithio tuag at ei weithredu, gyda chydymffurfiaeth lawn yn 2021/22 (os nad ydym eisoes yn cydymffurfio'n llawn).

### 3.2.6 Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio

Adolygwyd cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio y tro olaf ym mis Gorffennaf 2018. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid eu bod yn dilyn cylch gorchwyl model CIPFA yn agos ar gyfer cydbwyllgorau archwilio'r heddlu.

Trafododd y bwrdd nifer o feysydd posibl y gellid diweddarau'r cylch gorchwyl. Yn benodol cafodd y canlynol eu hamlygu:

- Adlewyrchwyd llywodraethu, risg ac archwilio mewnol ar hyn o bryd fel un eitem yn y CG ac o ystyried bod y meysydd hyn yn swyddogaethau pwysig iawn i'r Cydbwyllgor Archwilio, gellir egluro'r pwyslais hwn yn y cylch gorchwyl drwy adlewyrchu pob un ar wahân.
- Nodwyd hefyd bod y model arweiniad-aelodau yn rhan annatod o'r ffordd y mae ein Cydbwyllgor Archwilio yn gweithio, a gellir egluro hyn hefyd yn ein cylch gorchwyl.

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyflwyno cylch gorchwyl diwygiedig drafft i gyfarfod nesaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

**3.2.** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Chwefror 2021.

## 4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiâu ariannol a monitro systemau ariannol a pherfformiad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

#### **Awdur yr Adroddiad**

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, SCHTh





## Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 10 Rhagfyr 2020


<b>Teitl:</b>	Rhaglen Waith Arfaethedig
<b>Awdur:</b>	Prif Swyddog Cyllid
<b>Diben yr adroddiad:</b>	Cytuno ar y rhaglen waith
<b>Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)</b>	<input type="checkbox"/> X Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
<b>Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae hyn yn sicrhau fod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol gyda dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgorau yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.</li><li>Rydym wedi gwrandao ar adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio, ac wedi ychwanegu'r eitemau canlynol i'w cyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol:<ul style="list-style-type: none"><li>rheoli gwybodaeth a chydymffurfiaeth</li><li>darparu gwasanaeth archwilio mewnol</li></ul></li></ul>
<b>Argymhellion:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.</li><li>Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.</li><li>Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.</li></ul>
<b>Effaith cofrestr risgiau:</b>	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
<b>Goblygiadau sicrwydd:</b>	
<b>Effaith Cydraddoldeb:</b>	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae <a href="#">Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd</a> mewn grym.
<b>Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:</b>	Dim.

## CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

10 Rhagfyr 2020

### RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid



## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi derbyn rhaglen waith yn flynyddol yn ystod cyfarfod mis Gorffennaf. Mae hyn yn sicrhau fod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol gyda dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgorau yn cael eu rhyddhau yn ystod bob blwyddyn.
- 1.2 Yn ogystal, mae eitemau i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio i'w nodi drwy ffyrdd amrywiol – gan swyddogion, staff neu aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith yn llai ffurfiol, ac yn cael eu hychwanegu at yr agenda fel mae'n briodol.
- 1.3 Mae plismona'n amgylchfyd sy'n newid yn barhaus. Tra ei bod yn hanfodol fod y Cydbwyllgor Archwilio'n cyflawni gorchwylion penodol erbyn dyddiadau allweddol, mae cyflwyno'r rhaglen waith dim ond unwaith y flwyddyn yn anhyblyg. Nid yw'n dogfennu'n ddigonol pan mae eitemau sy'n cael eu nodi o'r newydd i'w cyflwyno i'r cydbwyllgor. Felly, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020, fe wnaeth y Cydbwyllgor gynnig fod y rhaglen waith i'w thrafod ar ddiwedd bob cyfarfod.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad yw dyddiad y cyfarfod wedi'i gadarnhau, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

## 2. ARGYMHELLION

- 2.1 Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.
- 2.2 Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- 2.3 Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.

### 3. RHAGLEN WAITH

3.1 Gan eithrio eitemau a amserlennwyd sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.

3.2 Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21
Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol)	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddariad Busnes</li><li>• Diweddariad HMICFRS</li><li>• Diweddariad Archwilio Mewnol</li><li>• Diweddariad Risgiau</li><li>• Rhaglen Waith</li></ul>

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21
30 <del>Mis</del> Mawrth 2021	<ul style="list-style-type: none"><li>• Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) <i>i'w chadarnhau cyn 1 Ebrill 2021</i></li><li>• Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys drafft AGS; Archwilio Cymru – cynllun blynyddol</li><li>• Datganiad Rheoli'r Heddlu</li><li>• Datganiad strategaeth risg a chwant risg – Adolygiad blynyddol</li><li>• Adroddiad Blynyddol CA – adroddiad drafft a thrafodaeth</li><li>• At Wraidd y Mater – Strydoedd Diogelach/Comisiynu</li></ul>
Gwanwyn 2021	<ul style="list-style-type: none"><li>• Digwyddiad blynyddol Cydbwyllgorau Cymru</li></ul>
Mehefin 2021	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfrifon 2020/21 – sesiwn friffio dechnegol</li></ul>
29 Gorffennaf 2021	<ul style="list-style-type: none"><li>• ISA 260 a llofnodi cyfrifon <i>i'w llofnodi erbyn 31 Gorffennaf 2021</i></li><li>• Diweddariad llywodraethu; sicrwydd o gyfarfod lefel uchel y BRhC (fydd yn mynychu cyfarfod mis Mawrth yn y dyfodol)</li><li>• Adolygiad o Gylch Gorchwyl CA</li><li>• Gwerth am arian</li><li>• Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• At Wraidd y Mater: Seiber</li> </ul>
6 Hydref 2021	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad llywodraethu (yn cynnwys Adolygiad Cod FM)</li> <li>• Perfformiad Rheoli'r Trysorlys</li> <li>• Rheoli gwybodaeth a chydymffurfiaeth</li> <li>• At wraidd y mater: i'w gadarnhau</li> </ul>
8 Rhagfyr 2021	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)</li> <li>• Adroddiad Cyfreithiol</li> <li>• Datganiad strategaeth risg a chwant risg – Adolygiad blynyddol</li> <li>• Diweddariad llywodraethu</li> <li>• Moeseg</li> <li>• Perfformiad Rheoli'r Trysorlys</li> </ul>

Raglen At Wraidd y Mater Darpar Risgiau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Incwm Grant / Comisiynu Strydoedd Diogelach (Mawrth 21)</li> <li>• Seiber (Gorffennaf 2021)</li> <li>• Strategaeth Cyrchu TGCh (i'w gadarnhau)</li> </ul>
Adroddiadau At Wraidd y Mater Blaenorol i gyfeirio ato yn yr Adroddiad Risg Cyfnodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn a Rheoli</li> <li>• Strategaeth Cynhyrchu TGCh, ac yn y blaen</li> </ul>
Eitemau eraill i'w trafod gyda'r CA	Darparu gwasanaethau archwilio mewnol

#### 4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae <a href="#">Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd</a> mewn grym.
4.2	Ariannol	Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd.
4.3	Cyfreithiol	Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei <a href="#">Gylch Gorchwyl</a> , sydd wedi'i baratoi yn unol â <i>Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and Police – Rhifyn 2018 (CIPFA)</i> . Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

4.4	Cymuned	Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu.
4.5	Risg	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol.

**Awdur yr Adroddiad:**

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd